wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

wavehill.com

# Gwerthusiad o'r Rhaglen Buddsoddi yng Nghanol Trefi Sir y Fflint

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

# Wavehill: Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd


Ein swyddfeydd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: St Nicholas House, 31-34 High Street, Bryste, BS1 2AW
- Swyddfa Gogledd Lloegr: The Corner, 26 Mosley Street, Newcastle, NE1 1DF
- Swyddfa Llundain: 2.16 Oxford House, 49 Oxford Road, Llundain, N4 3EY

Manylion cysylltu

Ffôn: 0330 1228658

Ebost: wavehill@wavehill.com

Twitter: @wavehilltweets

Rhagor o wybodaeth

www.wavehill.com

https://twitter.com/wavehilltweets



© Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd.

Mae hawlfraint ar yr adroddiad hwn. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill: ymchwil cymdeithasol ac economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.



Awduron yr adroddiad

Dr Huw Lloyd-Williams, Charlie Bagley, Oliver Allies

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn at Huw Lloyd-Williams (huw.lloyd-williams@wavehill.com ) yn y lle cyntaf.



Dyddiad y ddogfen: 21/02/2025

Fersiwn: Terfynol

Manylion y cleient

Karen Whitney-Lang (karen.whitney-lang@flintshire.gov.uk)

# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ..... i
1. Cyflwyniad ..... 1
1.1 Amcanion a chwestiynau'r gwerthusiad ..... 2
1.2 Methodoleg ..... 3
2. Trosolwg o'r Rhaglen a Synergedd Prosiectau ..... 6
2.1 Cyd-destun a rhesymeg ..... 6
2.2 Amcanion y rhaglen ..... 7
2.3 Disgrifiadau o'r prosiectau ..... 9
2.4 Asesu synergeddau prosiectau ..... 10
3. Perfformiad y Rhaglen ..... 11
3.1 Perfformiad yn erbyn targedau gwariant ..... 11
3.2 Perfformiad yn erbyn targedau allbynnau ..... 13
3.3 Perfformiad yn erbyn targedau canlyniadau ..... 16
4. Canfyddiadau – ar lefel y rhaglen ..... 19
4.1 Dyluniad y rhaglen ..... 19
4.2 Rheoli a llywodraethu'r rhaglen ..... 19
5. Canfyddiadau – ar lefel y prosiectau ..... 21
5.1 Prosiect 1 - Cynllun Grant Gwella Eiddo Canol Trefi (TCPIG) ..... 21
5.2 Prosiect 2 – Datblygu Prosiectau ar gyfer Buddsoddi yn y Dyfodol ..... 25
5.3 Prosiect 3 – Buddsoddi mewn Mannau Gwyrdd ..... 27
5.4 Prosiect 4 – Cyflogi Swyddog Hyrwyddo ac Ymgysylltu Marchnadoedd ..... 30
5.5 Prosiect 5 – Cynllun Grant Gweithgareddau a Digwyddiadau yng Nghanol Trefi ..... 34
5.6 Prosiect 6 – Datblygu Cynlluniau Creu Lleoedd ..... 38
5.7 Prosiect 7 – Cymorth wedi'i deilwra i fusnesau ..... 42
5.8 Prosiect 8 – Prosiect Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus ..... 52
5.9 Prosiect 9 – Gwerthuso ..... 54
5.10 Prosiect 10 – Dociau Cei Connah ..... 54
6. Casgliadau ac Argymhellion ..... 58
6.1 Pa mor berthnasol a phriodol oedd dyluniad y rhaglen ..... 58
6.2 Perfformiad yn erbyn targedau ..... 59
6.3 Rheoli a llywodraethu ..... 60
6.4 Effeithiau ac Etifeddiaeth ..... 60
6.5 Argymhellion ..... 61

## Rhestr ffigurau

Ffigur 4.1: Strwythur rheoli a llywodraethu – rhaglen TCIP ....................................................20
Ffigur 5.1 Lluniau cyn y prosiect ac wedyn o HiQ Tyres ac Autocare yn Queensferry ............21
Ffigur 5.2: Beth fyddech chi wedi'i wneud heb y cymorth a gafwyd o'r grant?......................23
Ffigur 5.3: Nifer yr ymwelwyr – dim digwyddiad (1af Mehefin)..............................................31
Ffigur 5.4: Nifer yr ymwelwyr – digwyddiad D-Day (8fed Mehefin) ........................................31
Ffigur 5.5: Marchnad yr Wyddgrug ar 19 Hydref 2024...........................................................32
Ffigur 5.6: Pobl ifanc yn dangos eu tystysgrif Gwobrau Masnachwyr Ifanc............................33
Ffigur 5.7 Gorymdaith Llusernau ym Mwcle ..........................................................................34
Ffigur 5.8: Sut daethoch chi i wybod am y Grant Gweithgareddau a Digwyddiadau gan Gyngor Sir y Fflint?.........................................................................................................36
Ffigur 5.9: Bodlonrwydd â'r gefnogaeth a gafwyd gan dîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint.........37
Ffigur 5.10: Ymateb buddiolwr i "Ers sawl blwyddyn ydych chi wedi bod yn masnachu?" ....44
Ffigur 5.11: Ymateb buddiolwyr i "Sut clywsoch chi gyntaf am gymorth busnes SavetheHighStreet?".............................................................................................................45
Ffigur 5.12: Yr heriau a wynebai busnesau wrth ymgysylltu â'r cymorth am y tro cyntaf (ymatebion lluosog) .............................................................................................................46
Ffigur 5.13: "Pan wnaethoch chi ymgysylltu â'r cymorth busnes am y tro cyntaf gyda naill ai Jo neu Lorna, y Mentoriaid Busnes a roddai'r cymorth hwn, a oedd eich busnes yn wynebu unrhyw un o'r heriau canlynol?" ..........................................................................47
Ffigur 5.14: "Wrth feddwl am eich ymwneud â Jo ac/neu Lorna o SaveTheHighStreet, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol" ...............................48
Ffigur 5.15: "I ba raddau y mae'r cymorth a gawsoch gan raglen SaveTheHighStreet wedi effeithio ar unrhyw un o'r canlynol?" ..........................................................................49
Ffigur 5.16: Effaith y cymorth ar heriau a nodwyd ................................................................50
Ffigur 5.17: Ar y cyfan, i ba raddau y mae eich busnes nawr mewn lle gwell o ganlyniad i'r cymorth a gawsoch? .............................................................................................................51

## Rhestr tablau

Tabl 1.1: Prif gwestiynau'r gwerthusiad ........ 2
Tabl 1.2: Cyfraddau ymateb i'r arolygon fesul prosiect ........ 3
Tabl 2.1: Model rhesymeg rhaglen y TCIP ........ 8
Tabl 3.1: Costau a ffynonellau ariannu gwreiddiol ........ 11
Tabl 3.2: Costau a ffynonellau ariannu wedi'u hailbroffilio – Tachwedd 2024 ........ 11
Tabl 3.3: Gwariant y rhaglen hyd yma (ar 30 Tachwedd 2024) ........ 12
Tabl 3.4: Targedau allbynnau'r UKSPF a chyflawniadau (ar 11/02/2025) ........ 13
Tabl 3.5: Targedau canlyniadau'r UKSPF a chyflawniadau ........ 16
Tabl 5.1: Camau creu lleoedd ........ 39
Tabl 5.2: Swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd ers ymgysylltu â'r cymorth ........ 50

# Crynodeb Gweithredol

Comisiynwyd Wavehill gan Gyngor Sir y Fflint i gynnal gwerthusiad o Raglen Buddsoddi yng Nghanol Trefi Sir y Fflint (TCIP). Mae'r TCIP yn cynnwys 10 prosiect y dyfarnwyd £1.5m o fuddsoddiad y Gronfa Ffyniant Gyffredin iddynt i gyflawni yn erbyn tair blaenoriaeth buddsoddi'r UKSPF, sef:

- Cymuned a Lle
- Cefnogi Busnes Lleol
- Pobl a Sgiliau

Mae'r deg prosiect yn canolbwyntio ar adfywio canol trefi ar draws Sir y Fflint ac maent wedi'u cynllunio i ymateb i anghenion a nodwyd fel y rhestrir yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer Cyngor Sir y Fflint sy'n cynnwys amcanion sy'n gysylltiedig â diogelu hyfywedd economaidd canol trefi Sir y Fflint.

Roedd amcanion y rhaglen yn cynnwys:

- Annog ac ymateb yn rhagweithiol i gyfleoedd buddsoddi mewn Canol Trefi
- Cefnogi gwasanaethau rheng flaen mewn lleoliadau canol trefi
- Nodi safleoedd allweddol ar gyfer ailddatblygu neu arallgyfeirio yn y dyfodol er mwyn gwella cynaliadwyedd a bywiogrwydd
- Targedu eiddo gwag neu eiddo canol tref nad oes digon o ddefnydd arnynt ar gyfer ymyrraeth
- Hyrwyddo mentrau cymunedol a pherchnogaeth ar asedau cymunedol
- Hyrwyddo canol trefi a chefnogi rhanddeiliaid i ddatblygu cynlluniau gweithredu
- Cefnogi busnesau i addasu i amodau economaidd sy'n esblygu
- Cael gafael ar gyfleoedd ariannu allanol i gefnogi'r rhaglen
- Gwella'r monitro er mwyn asesu a gwella bywiogrwydd canol trefi.

## Y gwerthusiad

Ceisiai'r gwerthusiad asesu:

- Pa mor briodol oedd dyluniad y rhaglen
- Perfformiad yn erbyn targedau
- Rheoli a llywodraethu'r rhaglen a'r prosiectau
- Canlyniadau, effeithiau ac etifeddiaeth sy'n codi o'r ymyriadau

## Prif ganfyddiadau

### Pa mor briodol oedd y dyluniad

**Roedd y rhaglen, a phrosiectau unigol, wedi'u cynllunio'n dda i fynd i'r afael â'r heriau economaidd-gymdeithasol cydnabyddedig sy'n wynebu'r ardal.** Roedd ffynonellau data cadarn, ac ymgynghoriadau cyhoeddus ehangach, yn sail i'r prosiectau, gan sicrhau dealltwriaeth glir o anghenion a chyfleoedd lleol.

**Rhoddodd y rhaglen sylw yn syth i anghenion uniongyrchol ar yr un pryd â gosod y sylfaen ar gyfer strategaeth, effaith ac etifeddiaeth yn y dyfodol.** Cynlluniwyd y rhaglen i fod ag agwedd flaengar, gan fod ag adfywio a chreu lleoedd i'r hirdymor yn sail iddi.

**Aeth y rhaglen i'r afael yn llwyddiannus â bylchau allweddol yn y ddarpariaeth ariannu a chapasiti mewnol**. Un o gryfderau allweddol y rhaglen oedd ei gallu i lenwi bylchau wedi'u gadael gan ffrydiau ariannu eraill a chyfyngiadau mewn adnoddau mewnol. Roedd defnyddio partneriaid darparu allanol mewn rhai prosiectau hefyd wedi helpu i liniaru problemau capasiti ac adnoddau mewnol yng Nghyngor Sir y Fflint,

gan sicrhau y gallai'r prosiect gyflawni ei amcanion yn effeithiol.

**Roedd hyblygrwydd yn yr ariannu a'r dylunio wedi galluogi cyrhaeddiad a pherthnasedd ehangach.** Yn sgil hyblygrwydd y rhaglen wrth gynnig buddsoddiadau cyfalaf a refeniw, yn ogystal â chwmpas daearyddol ledled y sir, gallai fynd i'r afael ag ystod amrywiol o anghenion ar draws Sir y Fflint.

**Roedd cydweithredu a chael pobl i gymryd rhan yn elfen ganolog o ddyluniad y rhaglen.** Roedd prosiectau wedi mynd ati'n weithredol i ymgysylltu ac ysgogi mewnbwn gan ystod eang o randdeiliaid a buddiolwyr. Roedd y dull cyfranogol hwn nid yn unig yn sicrhau bod prosiectau wedi'u halinio'n dda ag anghenion lleol ond roeddent hefyd yn codi ymwybyddiaeth ehangach o'r hyn a gynigir gan Gyngor Sir y Fflint ac wedi cryfhau'r berthynas â rhanddeiliaid lleol.

**Roedd cynllun strategol y rhaglen a'r rhyng-gysylltiadau ynddi wedi meithrin synergeddau rhwng prosiectau, gan wella'r effaith gyffredinol.** Roedd natur gyfannol y rhaglen yn amlwg yn y synergeddau a grëwyd ar draws prosiectau, gyda llawer o fentrau'n ategu ei gilydd i wella'r effaith drwyddi draw.

**Cryfder mawr oedd gallu'r rhaglen i addasu o ran dyluniad prosiectau, gan alluogi ymatebolrwydd i dirwedd newidiol.** Cynlluniwyd sawl prosiect yn fwriadol i fod â strwythurau hyblyg, gan roi modd gwella'n gyson yn ystod y cyfnod cyflawni.

## Perfformiad yn erbyn targedau

**Dangosodd y rhaglen berfformiad ariannol cryf gan wneud cynnydd effeithiol yn ei gwariant.**

**Llwyddodd y rhaglen i gyflawni neu ragori ar yr holl dargedau allbynnau a chanlyniadau.** Mae holl dargedau allbynnau a chanlyniadau'r UKSPF naill ai wedi eu cyflawni neu wedi rhagori arnynt gydag allbynnau/canlyniadau pellach yn debygol cyn diwedd y rhaglen. Ar draws pob prosiect, dangosa'r gorgyflawni ar y lefel hon ba mor effeithiol oedd dyluniad y rhaglen a'r gweithredu arni.

## Rheoli a llywodraethu

**Rheolwyd y rhaglen yn effeithiol, gyda rhanddeiliaid yn tynnu sylw at brosesau arwain a llywodraethu cryf drwy gydol y ddarpariaeth.** Canmolodd rhanddeiliaid yn gyson alluoedd cryf arweinwyr y rhaglen i reoli prosiectau, gan arddangos dull trefnus a ganolbwyntiai ar fanylion a oedd yn allweddol i lwyddiant y rhaglen, o gamau cynnar gwneud cais am grant hyd at ddarpariaeth a throsolwg parhaus. Roedd ymgysylltu rheolaidd â rheolwyr prosiectau unigol, cyswllt aml â thimau UKSPF lleol a rhanbarthol a mecanweithiau adrodd â strwythur dda wedi sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro'n agos, a bod problemau posibl yn cael sylw'n brydlon.

**Roedd y rhaglen yn strategol wrth ddewis prosiectau** a sail hynny oedd dyhead i fynd i'r afael â phroblemau cymuned a lle yng nghanol trefi a gwnaed hyn trwy gymorth wedi'i dargedu a sefydlu sylfaen dystiolaeth glir i helpu i lunio ceisiadau ariannu a chyfleoedd strategol yn y dyfodol.

**Her oedd yr amserlen ariannu tymor byr.** Fel gyda llawer o fentrau a ariannwyd gan UKSPF, cydnabuwyd yn eang gan randdeiliaid mai her oedd natur tymor byr y cyllid. Roedd dethol prosiectau yn strategol wedi sicrhau bod y mwyafrif o fentrau yn realistig a bod modd eu cyflawni o fewn y cyfnod ariannu, fel yr adlewyrchir ym mherfformiad cryf y rhaglen yn erbyn allbynnau a chanlyniadau. Er hynny, byddai

rhai prosiectau wedi elwa ar amser ychwanegol ar gyfer cynllunio ac ymgynghori.

**O bryd i'w gilydd roedd y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chasglu tystiolaeth ac adrodd wedi bod yn faich ychwanegol ar reolwyr prosiectau unigol**, gan ddangos gofynion gweinyddol heriol prosiectau UKSPF. Cymhlethwyd hyn ymhellach gan ddiffyg eglurder ynghylch gofynion tystiolaeth ar ddechrau cynnal y prosiect.

## Effeithiau ac Etifeddiaeth

Mae'r TCIP wedi **arwain at fuddion mawr o ystyried yr arian cymedrol a oedd ar gael i'w weithredu**. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y defnydd effeithiol o adnoddau a'r personél a ddefnyddiwyd i gynnal a rheoli'r gwahanol brosiectau.

**Etifeddiaeth graidd ledled y rhaglen yw cryfhau a wnaed ar ymgysylltiad rhanddeiliaid a chymunedau.** Llwyddodd y prosiectau i ddefnyddio ystod o ddulliau sy'n aml yn arloesol i gryfhau ymgysylltiad yn Sir y Fflint. Gyda'i gilydd mae hyn wedi rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa dda i ymateb i gyfleoedd ar gyfer gweithgarwch adfywio yn y dyfodol wrth iddynt godi.

**Mae'r rhaglen wedi llwyddo i ymgorffori egwyddorion creu lleoedd i fod yn rhan ganolog o weithgareddau Cyngor Sir y Fflint yn y dyfodol.** Un elfen o etifeddiaeth strategol mwyaf arwyddocaol y rhaglen yw gwreiddio gwerthoedd creu lleoedd yn fewnol, a bydd hwnnw nawr yn gonglfaen i strategaeth adfywio hirdymor y cyngor. Dylai hyn gryfhau gallu'r Cyngor i sicrhau ymdrechion adfywio cydlynol ac effeithiol yn y dyfodol.

**Mae'r rhaglen wedi gosod sylfeini cryf ar gyfer mentrau yn y dyfodol, gan fanteisio ar y gweithgareddau a gynhaliwyd trwy UKSPF.** Gyda'i gilydd, roedd y canlyniadau a gyflawnwyd wedi dangos gallu'r rhaglen i sicrhau manteision hirdymor, cynaliadwy y tu hwnt i'r cyfnod ariannu uniongyrchol.

**Mae llawer o ganlyniadau ac effeithiau'r rhaglen yn debygol o ddigwydd y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad hwn.** O ganlyniad, er bod yr adroddiad hwn yn cofnodi cynnydd a chyflawniadau sylweddol, bydd gwir faint effaith y rhaglen yn debygol o ddigwydd dros amser.

## Argymhellion

1. Dylid sicrhau bod y cynnydd a wnaed gan y prosiectau yn cael ei rannu'n effeithiol o fewn Cyngor Sir y Fflint a chyda phartneriaid er mwyn bod y rheiny sy'n ymwneud â datblygu syniadau, cynigion a cheisiadau am gyllid yn gwybod amdano ac yn gallu adeiladu ar y cynnydd a wnaed.
2. Dylid cadw a, lle bo modd, datblygu'r bartneriaeth a'r 'dull tîm' sydd wedi esblygu wrth reoli a chynnal y rhaglen.
3. Dylid mynd ati i nodi a sicrhau adnoddau i gynnal momentwm prif weithgareddau'r prosiectau yn ystod blwyddyn bontio 2025-26 a ariennir gan UKSPF ar gyfer gweithgareddau adfywio.
4. Dylid cadw'r systemau rheoli gwybodaeth sydd wedi bod yn llwyddiannus wrth fonitro cynnydd pob prosiect.
5. Wrth gynllunio, datblygu a chynnal prosiectau yn y dyfodol, dylid adfyfyrio ar y nifer sylweddol o wersi a ddysgwyd (y manylir arnynt gyda'i gilydd yn y log gwersi a ddysgwyd ar gyfer Rhaglen Buddsoddi yng Nghanol Trefi Sir y Fflint).

# 1. Cyflwyniad

Dyrannwyd cyfanswm o £13.1 miliwn o gronfeydd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) i Gyngor Sir y Fflint i'w fuddsoddi erbyn mis Mawrth 2025. Roedd y swm hwn wedi'i rannu'n £11 miliwn ar gyfer cyllid craidd a £2.2 miliwn ar gyfer y rhaglen 'Lluosi' genedlaethol. Roedd y cyllid ar gyfer tair blaenoriaeth buddsoddi UKSPF:

1. **Cymunedau a Lle**: meithrin balchder mewn cymunedau lleol a gwella cyfleoedd bywyd.
2. **Cefnogi Busnes Lleol**: cefnogi twf a datblygiad busnesau lleol.
3. **Pobl a Sgiliau**: datblygu sgiliau pobl a gwella eu cyflogadwyedd.

O'r cyllid hwnnw, llwyddodd Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint i gael ychydig dros £1.5 miliwn i gynnal **Rhaglen Buddsoddi yng Nghanol Trefi Sir y Fflint** (TCIP) a chomisiynwyd Wavehill i gynnal gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen.

Dyma'r prosiectau sy'n destun y gwerthusiad hwn:

- **Prosiect 1: Cynllun Grant Gwella Eiddo Canol Trefi**– ymyrraeth i adfywio adeiladau masnachol yng nghanol trefi.
- **Prosiect 2: Datblygu Prosiectau ar gyfer Buddsoddi yn y Dyfodol** – llunio astudiaethau dichonoldeb ac achosion busnes ar gyfer prosiectau adfywio yn y dyfodol.
- **Prosiect 3: Buddsoddi mewn Mannau Gwyrdd** – ymyriadau i gael gwelliannau a gosodiadau seilwaith gwyrdd ar draws trefi yn Sir y Fflint.
- **Prosiect 4: Hyrwyddo ac Ymgysylltu Marchnadoedd Canol Trefi** – penodi swyddog penodol a chyllideb ar gyfer hyrwyddo ac ymgysylltu â gweithgarwch y marchnadoedd yn yr Wyddgrug a Threffynnon.
- **Prosiect 5: Cynllun Grant Digwyddiadau a Gweithgareddau Canol Trefi** – dyfarnu grantiau i gynnal amrywiol ddigwyddiadau a gweithgareddau yng nghanol trefi.
- **Prosiect 6: Datblygu Cynlluniau Creu Lleoedd** – datblygu 7 cynllun creu lleoedd ar gyfer 7 o'r trefi ar draws Sir y Fflint.
- **Prosiect 7: Darpariaeth Cymorth wedi'i Deilwra i Fusnesau** – cymorth busnes pwrpasol ar gyfer busnesau bach sy'n gweithredu o ganol trefi Sir y Fflint.
- **Prosiect 8: Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus** – prosiect i gynnal ymgyrchoedd cyfathrebu gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i hyn, hyrwyddo 'arlwy' a 'rhannau gorau' Sir y Fflint.
- **Prosiect 9: Gwerthuso'r Rhaglen** – gwerthusiad o'r rhaglen trwy adroddiad traddodiadol a hefyd trwy ffilm.
- **Prosiect 10: Dociau Cei Connah** – prosiect i wella diogelwch cymunedol a mannau gweledol ardal ddifreintiedig.

Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwerthuso’r rhaglen o ran ei dyluniad, ei chynnal a’i heffaith, hyd at Chwefror 2025. Dylid nodi y rhoddwyd estyniad i’r rhaglen hon i ganiatáu i fuddsoddiad UKSPF barhau hyd at fis Mawrth 2025. Fodd bynnag, oherwydd bod yr adroddiad gwerthuso yn ofynnol gan y cyllidwr ar 28 Chwefror 2025, roedd angen rhagamcanu rhai o gyflawniadau’r prosiectau (yn enwedig yn adran 3).

## 1.1 Amcanion a chwestiynau’r gwerthusiad

Mae’r tabl canlynol yn amlinellu’r cwestiynau gwerthuso allweddol y bydd yr adroddiad hwn yn ceisio eu hateb:

Tabl 1.1: Prif gwestiynau’r gwerthusiad

| Pwnc | Cwestiwn gwerthuso |
|---|---|
| Pa mor berthnasol a phriodol oedd dyluniad y rhaglen | • A oedd y rhaglen a’r prosiectau unigol wedi’u cynllunio’n dda i fynd i’r afael â’r heriau cymdeithasol-economaidd sy’n wynebu'r ardal?<br>• Sut gwnaethpwyd penderfyniadau ynghylch dyluniad y rhaglen?<br>• A newidiwyd dyluniad y rhaglen neu brosiectau unigol yn ystod y cyfnod gweithredu? Os do, pam y gwnaed hynny, ac a oedd hynny wedi effeithio ar eu gallu i ymateb i amcanion y rhaglen?<br>• A newidiodd unrhyw elfennau yn y cyd-destun yn ystod y cyfnod gweithredu? Os do, sut effeithiodd hynny ar ba mor berthnasol a phriodol oedd y rhaglen? |
| Perfformiad yn erbyn targedau | • Sut oedd y rhaglen wedi perfformio yn erbyn ei thargedau gwariant?<br>• Pa gynnydd a wnaeth y rhaglen tuag at gyflawni ei dangosyddion allbynnau a chanlyniadau?<br>• Pa ffactorau sy’n esbonio amrywiadau, gan gynnwys tan-berfformio neu or-berfformio yn erbyn targedau a gontractiwyd? |
| Rheoli a llywodraethu | • Sut cafodd y prosiectau unigol eu cynnal?<br>• Pa mor effeithiol oedd y dull cyflawni ar gyfer pob prosiect?<br>• Beth weithiodd yn dda neu ddim cystal wrth gynnal prosiectau?<br>• Beth oedd y prosesau gwneud penderfyniadau a strwythurau llywodraethu ar gyfer y rhaglen?<br>• Pa mor effeithiol oedd y strwythurau a’r mecanweithiau hyn?<br>• Sut caiff y cyflawni, y gwariant a’r effaith eu mesur, eu monitro a’u gwerthuso? |
| Effeithiau | • Pa ganlyniadau ac effeithiau sydd neu a fydd y rhaglen yn eu cael?<br>• I ba raddau y mae’r rhaglen wedi cyflawni yn erbyn ei hamcanion gwreiddiol?<br>• Pa werth ychwanegol ehangach y mae’r rhaglen wedi esgor arno?<br>• Pa ganlyniadau neu effeithiau annisgwyl neu anfwriadol, os cafwyd rhai o gwbl, sydd wedi digwydd? |

## 1.2 Methodoleg

Mae'r canlynol yn crynhoi'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal y gwerthusiad.

### 1.2.1 Model rhesymeg a fframwaith gwerthuso

Cynhaliwyd cyfweliadau cwmpasu cychwynnol gyda'r swyddog arweiniol ar gyfer pob prosiect ym mis Gorffennaf/Awst 2024 a'r nod oedd casglu dealltwriaeth eang o'r prosiectau unigol. Gofynnwyd cwestiynau i bob arweinydd prosiect ynghylch y rhesymeg dros y prosiect, y gweithgareddau i'w cyflawni, y mewnbynnau gofynnol, yr allbynnau a'r canlyniadau tymor byr a hirdymor yn ogystal ag unrhyw ragdybiaethau a wnaed ac unrhyw rwystrau a gafwyd. Defnyddiwyd y wybodaeth hon wedyn mewn Model Rhesymeg trosfwaol ar gyfer y rhaglen (mae'r rhain i'w gweld yn adran 2.2). Yn ogystal â hyn, lluniwyd Fframwaith Gwerthuso yn seiliedig ar y wybodaeth o'r cyfweliadau cwmpasu cychwynnol, a hynny wedi caniatáu i ni sefydlu pa dystiolaeth oedd ar gael a beth oedd angen ei gasglu mewn arolygon pellach neu gyfweliadau ehangach â rhanddeiliaid a buddiolwyr.

### 1.2.2 Llunio arolygon

Ar gyfer pump o'r 10 prosiect, lluniwyd holiadur pwrpasol i gasglu tystiolaeth a fyddai'n llywio ein cwestiynau ymchwil. Roedd y rhain ar gyfer:

- Prosiect 1 (Grant Gwella Eiddo Canol Trefi)
- Prosiect 3 (Buddsoddi mewn Mannau Gwyrdd)
- Prosiect 4 (Hyrwyddo ac Ymgysylltu Marchnadoedd Canol Trefi)
- Prosiect 5 (Cynllun Grant Digwyddiadau a Gweithgareddau Canol Trefi)
- Prosiect 7 (Darpariaeth Cymorth wedi'i Deilwra i Fusnesau).

Penderfynwyd, yn dilyn cyfarfodydd â'r cleient, mai'r prosiectau hyn fyddai'n fwyaf priodol ar gyfer arolwg ar-lein tra byddai'r prosiectau eraill angen dull mwy ansoddol (gweler isod).

Mae'r tabl canlynol yn dangos cyfraddau ymateb yr arolygon a anfonwyd at fuddiolwyr:

Tabl 1.2: Cyfraddau ymateb i'r arolygon fesul prosiect

| Prosiect | Cyfradd ymateb (%) |
|---|---|
| 1: Grant Gwella Eiddo Canol Trefi | 8 (73%) |
| 3: Buddsoddi mewn Mannau Gwyrdd | 0 (0%) |
| 4: Hyrwyddo ac Ymgysylltu â Marchnadoedd Canol Trefi | 2 (13%) |
| 5: Cynllun Grant Digwyddiadau a Gweithgareddau Canol Trefi | 10 (63%) |
| 7: Darpariaeth Cymorth wedi'i Deilwra i Fusnesau | 14 (31%) |

Nid oeddem wedi llwyddo i gael ymatebion mewn perthynas â Phrosiect 3 gan fod angen tywydd oer ar y prosiect i alluogi'r tymor plannu i ddechrau. Roedd mis Hydref anarferol o fwyn wedi golygu oedi cyn plannu (elfen graidd cynnal y prosiect) ac o ganlyniad ni ellid cysylltu â buddiolwyr y prosiect tan Ionawr 2025 (a oedd y tu hwnt i gyfnod y gwaith maes ar gyfer y gwerthusiad). Ers hynny mae'r tîm adfywio wedi ymgysylltu'n llwyddiannus ag ysgolion a grwpiau eraill i gasglu adborth gan 53 o fuddiolwyr y prosiect. Disgwylir hefyd i fwy o arolygon wedi'u llenwi ddod i law y tu hwnt i gyfnod y gwerthusiad hwn.

Cafwyd cyfradd ymateb wael i brosiect 4 er gwaethaf rhoi cynnig ar sawl dull ymgysylltu (gan gynnwys ymweld ag un dref farchnad a dosbarthu arolwg ar-lein) ond ystyriwyd bod pwysau gwaith yn un o'r prif heriau a oedd wedi atal ymgysylltiad cyfranogwyr. Fodd bynnag, yn ystod prosiect 4, dosbarthodd y tîm adfywio holiaduron personol ac ar-lein yn targedu trefi Treffynnon a'r Wyddgrug a'r rhain wedi cipio data gan 858 o bobl ac mae arolwg ar-lein arall yn parhau i fod ar agor ar-lein ar hyn o bryd a'r canfyddiadau unwaith eto i gyrraedd ar ôl cyfnod yr adroddiad gwerthuso hwn.

Roedd cyfyngiadau o ran adnoddau ac amser wedi golygu bod y gwerthusiad wedi gwyro oddi wrth y dull ansoddol a gynigiwyd yn wreiddiol gan yn hytrach ddibynnu ar arolwg, a data meintiol yn bennaf. Ar gyfer prosiect 4, roedd ymgysylltu uniongyrchol â dau fasnachwr marchnad ar ffurf cyfweliadau ansoddol wedi ategu'r dystiolaeth feintiol. Yn ehangach, mae ffilm sy'n gwerthuso prosiect 9 ynghyd â ffilm ar y marchnadoedd mewn perthynas â phrosiect 4 a rhannu'r dystiolaeth honno wedi galluogi cynnwys data ansoddol pellach yn yr adroddiad hwn.

### 1.2.3 Cyfweliadau ansoddol ehangach â rhanddeiliaid a buddiolwyr

Ar draws y rhaglen, roedd cyfanswm o 24 o randdeiliaid wedi cymryd rhan mewn cyfweliadau ansoddol. Roedd rhai o'r rhain yn gysylltiedig â'r ymgysylltu strategol tra bod eraill yn benodol i brosiect, yn enwedig pan nad ystyrid bod arolwg ar-lein yn briodol, neu y teimlwyd y byddai dull mwy ansoddol yn fwy gwerthfawr. Roedd hyn yn wir am:

- Prosiect 2 (Datblygu Prosiectau ar gyfer Buddsoddi yn y Dyfodol) – cyfweliad tîm ac ymweliad â safle Cyngor Tref Bwcle.
- Prosiect 6 (Datblygu Cynlluniau Creu Lleoedd) – cyfweliad tîm â phedwar rhanddeiliad ac ymweliad â safle Cyngor Tref Bwcle.
- Prosiect 8 (Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus) – cyfweliad tîm â chwe rhanddeiliad.
- Prosiect 10 (Dociau Cei Connah) – ymweliad safle â dociau Cei Connah i siarad â phedwar rhanddeiliad.

### 1.2.4 Cyfweliadau manwl â rheolwyr y prosiectau

Cynhaliwyd cyfweliad â rheolwyr prosiectau i ymchwilio'n ddyfnach i waith pob prosiect. Roedd y cwestiynau yn canolbwyntio ar resymeg, dyluniad, cryfderau a gwendidau, themâu trawsbynciol, etifeddiaeth a gwersi a ddysgwyd. Adroddir canlyniadau'r cyfweliadau hyn yn yr adran Canfyddiadau yn yr adroddiad hwn (Adrannau 4 a 5).

### 1.2.5 Adolygiad desg a dadansoddi data monitro

Cynhaliwyd adolygiad o ddogfennaeth amrywiol yn rhan o'r gwerthusiad er mwyn cael dealltwriaeth o gyd-destun y prosiectau ac i gael tystiolaeth a oedd yn ategu'r gweithgarwch gwaith maes sylfaenol. Roedd y dogfennau strategol a adolygwyd yn cynnwys ceisiadau'r prosiectau, ceisiadau am grant, hawliadau chwarterol, ac adroddiadau cynnydd cysylltiedig a chais i newid prosiect.

Yn adran 3, cyflwynir y data monitro a gafwyd gan Gyngor Sir y Fflint ar wariant y rhaglen ynghyd â'r DPA diweddaraf sydd ar gael ar allbynnau a chanlyniadau.

# 2. Trosolwg o'r Rhaglen a Synergedd Prosiectau

## 2.1 Cyd-destun a rhesymeg

Gan fod â ffocws ar adfywio canol trefi, mae Rhaglen Buddsoddi yng Nghanol Trefi Sir y Fflint (TCIP) wedi'i chynllunio i gyflawni yn erbyn blaenoriaeth Economi yng Nghynllun Cyngor Sir y Fflint. Yr is-flaenoriaeth yw "adfywio ac ailfuddsoddi yng nghanol ein trefi" drwy "ddiogelu hyfywedd economaidd canol ein trefi".[1]

Mae'r gyfres o brosiectau a ariennir hefyd yn ceisio mynd i'r afael â materion allweddol yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030, a fabwysiadwyd ar 24 Ionawr 2023, sef cynllun sy'n amlinellu fframwaith strategol y sir ar gyfer datblygu cynaliadwy. Efallai mai'r elfen fwyaf priodol yn y cynllun, mewn perthynas â rhaglen TCIP, yw Seilwaith a Chyfleusterau Cymunedol lle mae'r cynllun yn pwysleisio pwysigrwydd darparu seilwaith a chyfleusterau cymunedol angenrheidiol i gefnogi datblygiad newydd, gan felly hyrwyddo cymunedau cydlynol sydd â gwasanaethau da.

Roedd dyluniad a chwmpas penodol y prosiectau yn seiliedig ar ymarfer cwmpasu yn Sir y Fflint a wnaed drwy gynnal ymgynghoriadau â rhanddeiliaid allweddol i dynnu ar eu gwybodaeth leol a'u harbenigedd mewn perthynas ag anghenion canol trefi. Cafodd dyluniad y prosiect ei lywio hefyd gan y chwe egwyddor a nodir yn adroddiad Comisiwn Dylunio Cymru Canllaw Creu Lleoedd sef: Pobl a Chymuned, Lleoliad, Symud, Cymysgedd o Ddefnyddiau, Tir y Cyhoedd a Hunaniaeth, gan gyfrannu ymhellach at ddyluniad y prosiect.

Yn ehangach, mae rhaglen y TCIP yn adlewyrchu egwyddor 'Canol Trefi yn Gyntaf' Llywodraeth Cymru, a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Mae'r egwyddor yn gosod iechyd a bywiogrwydd canol trefi fel y man cychwyn wrth wneud penderfyniadau am leoliadau. Mae'r polisi yn nodi sut mae canol trefi yn ganolbwynt i gymunedau; yn dod yn gynyddol yn lleoedd i fyw ynddynt, yn ganolfannau gweithgarwch cymunedol a diwylliannol, yn ffocws i wasanaethau cyhoeddus megis iechyd ac addysg, ac yn lleoliad mannau cydweithio newydd.

Cylch gorchwyl arall rhaglen y TCIP oedd ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau Ffyniant Bro y llywodraeth ganolog flaenorol, sef:

- Hybu cynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw drwy dyfu'r sector preifat, yn enwedig yn y mannau hynny lle maent ymhell ar ei hôl hi.
- Lledaenu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus, yn arbennig yn y lleoedd hynny maent ar eu gwannaf.

[1] Cynllun y Cyngor 2023-28, Cyngor Sir y Fflint.

- Adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn, yn enwedig yn y lleoedd hynny lle cawsant eu colli.

Ategwyd y cyd-destun strategol gan dystiolaeth a gasglwyd trwy amrywiol arolygon ac archwiliadau (e.e. arolwg CNC 2016, Arolwg Mannau Gwyrdd, archwiliadau Seilwaith Gwyrdd) i nodi materion a chyfiawnhau prosiectau.

Defnyddiwyd data a gasglwyd fel rhan o'r arolygon hyn, ynghyd ag ymgynghori â rhanddeiliaid lleol, i gyfiawnhau'r rhesymeg dros y rhaglen gyfan. Mewn rhai achosion, roedd prosiectau yn barhad o'r hyn a oedd wedi'i gyflawni'n barod (e.e. **Prosiect 1**) neu brosiectau wedi'u gwneud yn llai a oedd wedi methu â chael ffynonellau cyllid eraill (e.e. **Prosiect 10**).

## 2.2 Amcanion y rhaglen

Yn erbyn y cefndir cyd-destun uchod, gellir crynhoi amcanion rhaglen y TCIP fel a ganlyn:

1) Ymateb yn rhagweithiol i ddiddordeb mewn marchnadoedd drwy fuddsoddi yng nghanol trefi ac annog buddsoddiad pryd bynnag y bydd cyfleoedd priodol yn codi.
2) Cefnogi gwasanaethau'r rheng flaen mewn lleoliadau yng nghanol trefi i gynorthwyo â mynediad i wasanaethau'r Cyngor a phartneriaid a chynnal nifer yr ymwelwyr i'r ardaloedd hynny.
3) Gweithredu polisïau Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer canol trefi i reoli newidiadau i ddefnydd tir sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd a bywiogrwydd.
4) Nodi safleoedd allweddol ar gyfer ailddatblygu yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar arallgyfeirio defnydd tir i wella cynaliadwyedd a bywiogrwydd.
5) Yn dibynnu ar yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael ac asesiadau hyfywedd masnachol trylwyr, mynd ati i ddechrau caffael safleoedd allweddol i'w hailddatblygu.
6) Targedu eiddo gwag neu eiddo nas defnyddir ddigon yng nghanol trefi ar gyfer ymyrraeth, gan ddefnyddio ystod lawn o bwerau gorfodi'r Cyngor lle bo angen.
7) Hyrwyddo twf ym mherchnogaeth asedau cymunedol a mentrau cymunedol yng nghanol trefi.
8) Cefnogi grwpiau rhanddeiliaid yng nghanol trefi i ddatblygu a gweithredu cynlluniau, ochr yn ochr â mentrau ledled y Sir megis gweithgareddau hyrwyddo i hybu canol trefi.
9) Cynorthwyo busnesau i addasu i amodau economaidd sy'n esblygu.
10) Mynd ati'n weithredol i chwilio am gyfleoedd ariannu allanol i gefnogi'r rhaglen.
11) Gwella ymdrechion monitro i asesu a gwella bywiogrwydd canol trefi.

Ceir trosolwg o raglen y TCIP a'i chanlyniadau a'i heffeithiau disgwyliedig yn y model rhesymeg drosodd.

Tabl 2.1: Model rhesymeg rhaglen y TCIP

| Mewnbynnau | Gweithgareddau: gan gynnwys allbynnau y gellir eu defnyddio i fesur maint y gweithgareddau hyn | Canlyniadau: byrdymor – beth fydd y gweithgareddau hyn yn arwain yn uniongyrchol ato? | Canlyniadau: hirdymor – beth fydd y canlyniadau mwy hirdymor? |
|---|---|---|---|
| • £1.5m cyllid UKSPF<br>• £364k arian cyfatebol<br>• Mewnwelediad rhanddeiliaid<br>• Cefnogaeth a goruchwyliaeth staff | **Gweithgareddau ledled canol trefi Sir y Fflint:**<br>• Marchnata/hyrwyddo ymyriadau'r UKSPF<br>• Ymgynghori/ymgysylltu â grwpiau amrywiol<br>• Dylunio a datblygu astudiaethau dichonoldeb a chynlluniau (gan gynnwys creu lleoedd)<br>• Cefnogaeth ceisiadau grant i fusnesau, grwpiau cymunedol a pherchnogion eiddo<br>• Gwella eiddo masnachol seilwaith gwyrdd<br>• Gwella isadeiledd er diogelwch cymunedol<br>**Allbynnau:**<br>• Nifer yr adeiladau masnachol wedi'u cwblhau/gwella<br>• Nifer y sefydliadau yn cael grantiau<br>• Nifer yr astudiaethau dichonoldeb a ddatblygwyd<br>• Mannau gwyrdd wedi'u creu/gwella<br>• Nifer y coed a blannwyd<br>• Nifer yr amwynderau/cyfleusterau wedi'u gwella<br>• Nifer y marchnadoedd, digwyddiadau neu weithgareddau lleol a grëwyd/cefnogwyd<br>• Nifer y sefydliadau/mentrau yn cael cymorth anariannol<br>• Pobl yn mynychu sesiynau hyfforddi | • Swyddi wedi'u creu/diogelu<br>• Nifer yr unedau gwag wedi'u llenwi<br>• Nifer y prosiectau sy'n deillio o astudiaethau dichonoldeb<br>• Pobl yn meddwl yn well am gyfleuster/prosiect isadeiledd<br>• Pobl yn meddwl yn well am farchnadoedd<br>• Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli yn sgil y gefnogaeth<br>• Nifer y mentrau a gefnogir<br>• Nifer y mentrau sy'n cysylltu â marchnadoedd newydd<br>• Swyddi a grëwyd o ganlyniad i'r gefnogaeth<br>• Nifer yr unedau gwag wedi'u llenwi | Tystiolaeth o fwy o fywyd a bywiogrwydd yng nghanol trefi drwy:<br>• Gostyngiad yn nifer y siopau gwag canol tref<br>• Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr<br>• Mwy o weithgarwch yn y marchnadoedd<br>• Cyfraddau gwariant uwch fesul ymwelydd i ganol y trefi<br>• Busnesau yn fwy cydnerth<br>• Lefelau uwch o weithgarwch entrepreneuraidd yng nghanol trefi<br>• Rhaglen barhaus o weithgarwch diwylliannol yng nghanol trefi<br>• Denu buddsoddiad pellach wedi'i dargedu at adfywio a thwf canol trefi<br>• Mwy o fioamrywiaeth ar draws trefi Sir y Fflint |

## 2.3 Disgrifiadau o'r prosiectau

### Prosiect 1 – Cynllun Grant Gwella Eiddo Canol Trefi (TCPIG)

Nod y prosiect hwn yw gwella eiddo masnachol yng nghanol trefi ar draws Sir y Fflint trwy weithredu cynllun grant. Mae'r Tîm Adfywio wedi cynorthwyo perchnogion eiddo (sy'n aml yn fusnesau lleol) o'r cam ymholiad cyntaf trwy'r gwaith cwmpasu prosiect, ei ddatblygu a gwneud cais. Roedd y prosiectau a ariannwyd yn alinio ag anghenion lleol, cynlluniau adfywio a blaenoriaethau creu lleoedd.

### Prosiect 2 – Datblygu Prosiectau ar gyfer Buddsoddi yn y Dyfodol

Ariannwyd cyfres o astudiaethau dichonoldeb cysylltiedig â gwneud gwaith, uwchgynlluniau, achosion busnes ac adroddiadau technegol i fod yn sail i adfywio canol trefi yn y dyfodol a buddsoddi mewn creu lleoedd.

### Prosiect 3 – Buddsoddi mewn Mannau Gwyrdd

Yn cynnwys gwelliannau a gosodiadau seilwaith gwyrdd ar draws canol trefi yn Sir y Fflint megis plannu ar strydoedd/waliau gwyrdd, gwelliannau ar hyd y prif ffyrdd i gyrraedd y canol a gwelliannau i fannau cyhoeddus i wella amgylcheddau canol trefi i drigolion a defnyddwyr ac i greu ymdeimlad cryfach o le.

### Prosiect 4 – Cyflogi Swyddog Hyrwyddo ac Ymgysylltu â Marchnadoedd

Rhoddwyd y dasg o weithredu ymgyrchoedd cyfathrebu a hyrwyddo i Swyddog Hyrwyddo ac Ymgysylltu â Marchnadoedd i annog mwy ar ddefnydd o farchnadoedd, cynyddu nifer yr ymwelwyr, cynyddu gwariant, a gwella hyfywedd a bywiogrwydd marchnadoedd yr Wyddgrug a Threffynnon.

### Prosiect 5 – Cynllun Grant Digwyddiadau a Gweithgareddau Canol Trefi

Rhoddodd y cynllun grant gyfle i sefydliadau/pobl leol ddatblygu a chynnal digwyddiadau a gweithgareddau sy'n cyfrannu at ymdeimlad cryfach o gymuned mewn trefi ac at fywiogrwydd canol trefi ledled Sir y Fflint.

### Prosiect 6 – Datblygu Cynlluniau Creu Lleoedd

Rhoddwyd adnoddau ychwanegol i gwblhau datblygu saith Cynllun Creu Lleoedd (PMP) ar draws Sir y Fflint, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Y trefi sydd wedi'u cynnwys yn natblygiad y Cynllun hwn yw Bwcle, Cei Connah, y Fflint, Treffynnon, yr Wyddgrug, Queensferry, a Shotton. Bwriad y cynlluniau creu lleoedd yw darparu mecanwaith i gymunedau ymgysylltu'n greadigol â'r broses gynllunio ac maent yn rhagofyniad allweddol ar gyfer sicrhau cyllid Trawsnewid Trefi yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru.

### Prosiect 7 – Darpariaeth Cymorth wedi'i Deilwra i Fusnesau

Roedd y prosiect hwn wedi trefnu gweithgareddau ymgysylltu â busnesau ac yn cynnig cymorth a hyfforddiant un-i-un wedi'u teilwra i fusnesau canol trefi er mwyn eu cefnogi i barhau, tyfu a ffynnu. Roedd y fenter ar gael i fusnesau newydd a phresennol mewn saith canol tref: Bwcle, Cei Connah, y Fflint, Treffynnon, yr Wyddgrug, Queensferry, a Shotton.

### Prosiect 8 – Prosiect Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus

Roedd y prosiect hwn yn ceisio gwella'r gwaith o hyrwyddo'r hyn a gynigir yng Nghanol Trefi Sir y Fflint a gweithredai fel cangen farchnata ar gyfer holl weithgarwch rhaglen TCIP yr UKSPF yn yr ardal.

### Prosiect 9 – Gwerthuso'r Rhaglen

Comisiynodd y prosiect werthusiad allanol (sef hwn) yn ogystal â chwmni ffilmiau i greu ffilm sy'n cyflwyno effaith y rhaglen mewn modd gweledol, deniadol.

### Prosiect 10 – Dociau Cei Connah

Roedd y prosiect hwn yn ychwanegiad hwyr at gyfres prosiectau UKSPF a hynny wedi digwydd o ganlyniad i danwariant ar brosiectau eraill yn rhyddhau adnoddau. Ei nod oedd gwella ardal Dociau Cei Connah trwy wella diogelwch ar hyd Heol y Doc, lleihau ofn trosedd, a chreu amgylchedd mwy diogel i breswylwyr, defnyddwyr ac ymwelwyr. Mae'r prosiect wedi canolbwyntio ar dri maes allweddol: (a) gosod teledu cylch-cyfyng; (2) uwchraddio goleuadau; a (3) gwelliannau amgylcheddol.

## 2.4 Asesu synergeddau prosiectau

Mae'n amlwg bod synergeddau rhwng y prosiectau a gellir gweld llawer o enghreifftiau o brosiectau'n cydweithio ac yn dylanwadu ar ei gilydd. Mae hyn yn dangos natur gyfannol y rhaglen yn yr ystyr bod y cyfanwaith 'yn fwy na chyfanswm ei rhannau'.

Gellir ystyried **Prosiect 6** fel sylfaen y rhaglen gan fwydo i mewn i'r holl brosiectau eraill mewn rhyw ffordd gan ddangos pwysigrwydd creu lleoedd drwy gydol y rhaglen. Mae gan bob prosiect elfen o greu lle ynddynt ac mae **Prosiect 6** yn ffurfioli hyn drwy ddatblygu 7 cynllun creu lle.

Yn yr un modd, dylanwadodd **Prosiect 8** ar bob prosiect arall gyda'i ffocws ar hyrwyddo rhaglen UKSPF i fuddiolwyr pob prosiect a'r cyhoedd ehangach a thrwy gynnal ymgynghoriadau. Roedd yn ddefnyddiol wrth hyrwyddo ac ymgysylltu â chymunedau yn y cynlluniau Creu Lleoedd a ddatblygwyd trwy **Brosiect 6**.

Roedd **Prosiectau 4** a **5** yn ategu'i gilydd i raddau helaeth, er enghraifft, aeth rhanddeiliaid a nodwyd trwy weithgareddau **Prosiect 4** (e.e., digwyddiadau a marchnadoedd) ymlaen i wneud cais am grantiau **Prosiect 5** a chynnal digwyddiadau llwyddiannus a fabwysiadwyd gan y Swyddog Hyrwyddo ac Ymgysylltu ar gyfer y marchnadoedd.

Mae **Prosiect 3** yn gysylltiedig â **Phrosiect 2** gan fod yr archwiliadau Seilwaith Gwyrdd a ddatblygwyd drwyddynt wedi llywio'r prosiect Mannau Gwyrdd. Roedd cysylltiadau hefyd rhwng **Prosiect 3** a **Phrosiect 10** yn yr ystyr bod cynllun a ddatblygwyd yn y cyntaf yn cael ei ddefnyddio yn yr olaf.

Canfuwyd cysylltiadau rhwng **Prosiect 1** a **Phrosiect 7** (enghreifftiau o fusnesau yn defnyddio'r cynllun Grant Gwella Eiddo Canol Trefi a'r cynllun Cymorth Busnes) a **Phrosiect 10** (ariannwyd adeilad Kathleen a May gan **Brosiect 1**).

# 3. Perfformiad y Rhaglen

Mae'r adran hon yn amlinellu'r hyn y cynlluniwyd y rhaglen i'w gyflawni a'r hyn y disgwylir iddi ei gyflawni, gan asesu perfformiad yn erbyn y disgwyliadau ar sail lefelau cyflawni ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

## 3.1 Perfformiad yn erbyn targedau gwariant

Mae cyllideb wreiddiol y rhaglen wedi'i nodi yn nhabl 3.1 isod, ac mae'n dangos bod tua dwy ran o dair o'r gwariant gwreiddiol i'w dalu drwy arian UKSPF gyda'r gweddill yn arian cyfatebol.

Tabl 3.1: Costau a ffynonellau ariannu gwreiddiol

| Cyfraniad | Gwerth (£) | Canran yr ariannu |
|---|---:|---:|
| Cyllid UKSPF | £1,178,452 | 65% |
| Arian cyfatebol | £630,311 | 35% |
| **Cyfanswm costau'r prosiect** | **£1,808,763** | **100%** |

Ym mis Mai 2024, cafodd cais am newid ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan Dîm Rhanbarthol UKSPF. Fel y dangosir yn Nhabl 3.2 isod, arweiniodd hyn at gynnydd yng nghyllid grant yr UKSPF a gostyngiad yng nghyfran yr arian cyfatebol. Roedd yr addasu ar yr arian cyfatebol (cyllid Llywodraeth Cymru yn bennaf) yn ymwneud ag amrywiol ffactorau penodol i brosiectau ond yn bennaf oherwydd na ddefnyddiwyd arian Llywodraeth Cymru i gyd-ariannu gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'r prosiect ond yn hytrach fe'i defnyddiwyd i fuddsoddi mewn gweithgareddau penodol a oedd yn rhan o brosiect (er enghraifft comisiynu gwaith technegol o ddadansoddi data allanol a chostau ymgynghori creu lleoedd).

Tabl 3.2: Costau a ffynonellau ariannu wedi'u hailbroffilio – Tachwedd 2024

| Cyfraniad | Gwerth (£) | Canran yr ariannu |
|---|---:|---:|
| Cyllid UKSPF | £1,500,432 | 80% |
| Arian cyfatebol | £363,760 | 20% |
| **Cyfanswm costau'r prosiect** | **£1,864,192** | **100%** |

Dengys Tabl 3.3 fod £1,472,256.80 wedi'i wario hyd yn hyn[2] gyda £391,935.20 arall i'w wario yn ystod gweddill y rhaglen.

[2] 30/11/2024

Tabl 3.3: Gwariant y rhaglen hyd yma (ar 30 Tachwedd 2024)

| Gwariant Cymwys | Cyfanswm gwariant wedi'i hawlio hyd yn hyn | Gwariant sy'n weddill | Canran y dyraniad sy'n weddill |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm grant cyfalaf UKSPF | £ 595,927.25 | £223,788.75 | 37.5% |
| Cyfanswm grant refeniw UKSPF | £ 543,431.53 | £137,284.47 | 25% |
| Cyfanswm arian cyfatebol buddiolwyr – 30% arian cyfatebol gan ymgeisydd Gwella Eiddo | £ 232,189.09 | £9,542.91 | 4% |
| Cyfanswm arian cyfatebol buddiolwyr – 20% arian cyfatebol gan ymgeisydd Digwyddiadau / Gweithgareddau | £ 84,940.93 | £17,377.07 | 20% |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | £15,768.00 | £3,942.00 | 25% |
| **Cyfanswm costau'r prosiect** | **£1,472,256.80** | **£391,935.20** | **27%** |

Nodwyd cyfres o ddangosyddion allbynnau a chanlyniadau yn dargedau i'r prosiectau eu cyflawni yn sgil y buddsoddiad hwn. Mae'r ddwy adran nesaf yn amlinellu Dangosyddion Perfformiad Allweddol y prosiect ar y dechrau a sut y cyflawnwyd y rhain yn ystod y rhaglen.

## 3.2 Perfformiad yn erbyn targedau allbynnau

Mae Tabl 3.4 yn amlinellu pob prosiect ac ymyrraeth yr UKSPF y bwriadwyd ei dargedu ynghyd â'r targed UKSPF gwirioneddol, yr hyn a gyflawnwyd a'r hyn y rhagwelir y bydd yn cael ei gyflawni erbyn diwedd y rhaglen.

Tabl 3.4: Targedau allbynnau'r UKSPF a chyflawniadau (ar 11/02/2025)

| Rhif prosiect TCIP | Rhif yr ymyrraeth | Dangosydd allbwn | Uned mesur | Targed cymeradwy | Cyfanswm wedi'i gyflawni hyd yma (11 Chwefror 25) | Disgwylir erbyn hawliad mis Mawrth 2025 | Cyfanswm a ragwelir erbyn diwedd y rhaglen | Cyflawni neu ragori ar y targed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | W1 Gwelliannau i ganol trefi a'r Stryd Fawr | Nifer yr adeiladau masnachol wedi'u cwblhau neu eu gwella | Nifer yr adeiladau | 13 | 13 | 0 | 13 | **Cyflawni** |
| 1 | W1 Gwelliannau i ganol trefi a'r Stryd Fawr | Nifer y sefydliadau sy'n derbyn grantiau | Nifer y sefydliadau | 13 | 13 | 0 | 13 | **Cyflawni** |
| 1 | W12 Cynlluniau ymgysylltu cymunedol, adfywio lleol | Nifer y sefydliadau sy'n cael cymorth anariannol | Nifer y sefydliadau | 25 | 30 | 10 | 40 | **Rhagori** |
| 2 | W14 Astudiaethau dichonoldeb perthnasol | Nifer yr astudiaethau dichonoldeb a ddatblygwyd o ganlyniad i'r gefnogaeth | Nifer yr astudiaethau | 10 | 17 | 0 | 17 | **Rhagori** |

| Rhif prosiect TCIP | Rhif yr ymyrraeth | Dangosydd allbwn | Uned mesur | Targed cymeradwy | Cyfanswm wedi'i gyflawni hyd yma (11 Chwefror 25) | Disgwylir erbyn hawliad mis Mawrth 2025 | Cyfanswm a ragwelir erbyn diwedd y rhaglen | Cyflawni neu ragori ar y targed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | W3 Creu a gwella mannau gwyrdd lleol | Faint o fannau gwyrdd neu las wedi'u creu neu eu gwella | Metrau sgwâr ($m^2$) | 100 | 717.14 | 5.4 | 722.54 | **Rhagori** |
| 3 | W3 Creu a gwella mannau gwyrdd lleol | Nifer y coed a blannwyd | Nifer y coed | 25 | 360 | 0 | 360 | **Rhagori** |
| 3 | W3 Creu a gwella mannau gwyrdd lleol | Nifer yr amwynderau/cyfleusterau wedi'u creu neu eu gwella | Nifer yr amwynderau / cyfleusterau | 6 | 7 | 1 | 8 | **Rhagori** |
| 4 | W16 Marchnadoedd agored a'r sector manwerthu a gwasanaethau yng nghanol trefi | Nifer y marchnadoedd lleol a grëwyd neu a gefnogwyd | Nifer y marchnadoedd | 3 | 6 | 0 | 6 | **Rhagori** |
| 5 | W8 Cyllid i ddatblygu a hyrwyddo ymgyrch-oedd ehangach a phrofiadau gydol y flwyddyn sy'n annog pobl i ymweld â'r ardal leol a'i harchwilio. | Nifer y digwyddiadau neu weithgareddau lleol a gefnogwyd | Nifer y digwyddiadau / gweithgareddau | 16 | 34 | 17 | 51 | **Rhagori** |

| Rhif prosiect TCIP | Rhif yr ymyrraeth | Dangosydd allbwn | Uned mesur | Targed cymeradwy | Cyfanswm wedi'i gyflawni hyd yma (11 Chwefror 25) | Disgwylir erbyn hawliad mis Mawrth 2025 | Cyfanswm a ragwelir erbyn diwedd y rhaglen | Cyflawni neu ragori ar y targed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | W12 Cynlluniau ymgysylltu cymunedol, adfywio lleol | Nifer y sefydliadau sy'n derbyn grantiau | Nifer y sefydliadau | 17 | 17 | 0 | 17 | **Cyflawni** |
| 5 | W12 Cynlluniau ymgysylltu cymunedol, adfywio lleol | Nifer y sefydliadau sy'n cael cymorth anariannol | Nifer y sefydliadau | 25 | 30 | 10 | 40 | **Rhagori** |
| 7 | W23 Cryfhau ecosystemau entrepreneuraidd lleol | Nifer y mentrau yn cael cymorth anariannol | Nifer y mentrau | 50 | 53 | 0 | 53 | **Rhagori** |
| 7 | W23 Cryfhau ecosystemau entrepreneuraidd lleol | Nifer y bobl yn mynychu sesiynau hyfforddi | Nifer y bobl | 25 | 32 | 0 | 32 | **Rhagori** |
| 10 | W5 Amgylchedd adeiladu a thirweddu wedi'i ddylunio i atal trosedd | Nifer y gwelliannau a wnaed i gymdogaeth | Nifer y gwelliannau | 3 | 4 | 3 | 7 | **Rhagori** |

O ran pob prosiect oedd â thargedau allbwn, mae pob un wedi'i gyflawni neu'n amlach na pheidio wedi rhagori arno, gan ddangos cryn lwyddiant wrth gynnal y rhaglen.

## 3.3 Perfformiad yn erbyn targedau canlyniadau

Tabl 3.5: Targedau canlyniadau'r UKSPF a chyflawniadau

| Rhif prosiect TCIP | Rhif yr ymyrraeth | Dangosydd canlyniad | Uned mesur | Targed cymeradwy | Cyfanswm wedi'i gyflawni hyd yma (11-02-25) | Disgwylir erbyn hawliad mis Mawrth 2025 | Cyfanswm a ragwelir erbyn diwedd y rhaglen | Cyflawni neu ragori ar y targed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | W1 Gwelliannau i ganol trefi a'r Stryd Fawr | Swyddi a grëwyd o ganlyniad i'r gefnogaeth | Nifer cyfwerth ag amser llawn (FTE) | 3 | 4 | 1 | 5 | **Rhagori** |
| 1 | W1 Gwelliannau i ganol trefi a'r Stryd Fawr | Nifer yr unedau gwag wedi'u llenwi | Nifer yr unedau gwag wedi'u llenwi | 4 | 5 | 2 | 7 | **Rhagori** |
| 2 | W14 Astudiaethau dichonoldeb perthnasol | Nifer y prosiectau sy'n deillio o astudiaethau dichonoldeb a ariannwyd | Nifer y prosiectau | 4 | 8 | 1 | 9 | **Rhagori** |
| 3 | W3 Creu a gwella mannau gwyrdd lleol | Pobl yn meddwl yn well am gyfleuster/prosiect isadeiledd | Nifer y bobl | 50 | 53 | 5 | 58 | **Rhagori** |

| Rhif prosiect TCIP | Rhif yr ymyrraeth | Dangosydd canlyniad | Uned mesur | Targed cymeradwy | Cyfanswm wedi'i gyflawni hyd yma (11-02-25) | Disgwylir erbyn hawliad mis Mawrth 2025 | Cyfanswm a ragwelir erbyn diwedd y rhaglen | Cyflawni neu ragori ar y targed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | W16 Marchnadoedd agored a'r sector manwerthu a gwasanaethau yng nghanol trefi | Pobl yn meddwl yn well am farchnadoedd | Nifer y bobl | 70 | 661 | 0 | 661 | **Rhagori** |
| 5 | W8 Cyllid i ddatblygu a hyrwyddo ymgyrchoedd ehangach a phrofiadau gydol y flwyddyn sy'n annog pobl i ymweld â'r ardal leol a'i harchwilio | Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr | Nifer y bobl | 1000 | 6365 | 102 | 6467 | **Rhagori** |
| 5 | W12 Cynlluniau ymgysylltu cymunedol, adfywio lleol | Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli a grëwyd o ganlyniad i'r gefnogaeth | Nifer y rolau gwirfoddoli a grëwyd | 33 | 310 | 13 | 323 | **Rhagori** |
| 7 | W23 Cryfhau ecosystemau entrepreneuraidd lleol | Cynnydd yn nifer y mentrau a gefnogir | Nifer y mentrau | 50 | 50 | 0 | 50 | **Cyflawni** |

| Rhif prosiect TCIP | Rhif yr ymyrraeth | Dangosydd canlyniad | Uned mesur | Targed cymeradwy | Cyfanswm wedi'i gyflawni hyd yma (11-02-25) | Disgwylir erbyn hawliad mis Mawrth 2025 | Cyfanswm a ragwelir erbyn diwedd y rhaglen | Cyflawni neu ragori ar y targed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | W23 Cryfhau ecosystemau entrepreneuraidd lleol | Nifer y mentrau sy'n cysylltu â marchnadoedd newydd | Nifer y mentrau | 12 | 14 | 0 | 14 | **Rhagori** |

O ran canlyniadau prosiectau, gellir gweld bod y rhan fwyaf o'r targedau canlyniadau naill ai wedi'u cyflawni neu fel sydd wedi digwydd gan amlaf, wedi rhagori arnynt. Unwaith eto, mae hyn yn dystiolaeth o lwyddiant sylweddol y rhaglen.

# 4. Canfyddiadau – ar lefel y rhaglen

## 4.1 Dyluniad y rhaglen

Cynlluniwyd prosiectau Rhaglen Buddsoddi mewn Canol Trefi (TCIP) UKSPF Sir y Fflint i fynd i'r afael ag anghenion uniongyrchol ar yr un pryd â gosod y sylfaen ar gyfer camau gweithredu, effaith ac etifeddiaeth i'r dyfodol. Roedd cydweithredu a chyfranogi yn ganolog iddi, gan ysgogi mewnbwn gwahanol randdeiliaid a buddiolwyr i fynd i'r afael â heriau lleol yn llwyddiannus. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ym mhrosiectau 2 a 6, lle gosodwyd y sylfaen ar gyfer llawer o'r prosiectau eraill.

Roedd hyblygrwydd hefyd o ran lleoliadau a mathau o gyllid (buddsoddiadau cyfalaf a refeniw) gan alluogi cyrhaeddiad a pherthnasedd ehangach. Roedd fframwaith UKSPF yn caniatáu'r hyblygrwydd hwn o ran y gallu i ddewis lleoliadau a mathau o gyllid (i raddau).

Fel y crybwyllwyd yn adran 2.4, roedd cysylltiadau cryf rhwng prosiectau, a soniodd sawl rheolwr prosiect fod y gorgyffwrdd a'r synergeddau rhwng prosiectau yn gryfder yn nyluniad y rhaglen. Yn ei hanfod, dangosodd y rhaglen ddefnydd effeithiol o ddulliau sy'n seiliedig ar ddata, a dulliau sydd wedi'u llywio gan adborth er mwyn cael sail resymegol ar gyfer pob prosiect yn y rhaglen. Mae model rhesymeg yn rhoi trosolwg.

## 4.2 Rheoli a llywodraethu'r rhaglen

O ran rheoli'r rhaglen, roedd gan Gyngor Sir y Fflint system gadarn ar waith i fonitro a gwerthuso gweithgarwch UKSPF a hyn wedi helpu'r awdurdod i gadw golwg ar gynnydd yn erbyn targedau. Roedd dau gam i'r broses ymgeisio am arian UKSPF; roedd y cam cyntaf yn ysgafn ac yn dileu'r prosiectau hynny nad oeddent yn bodloni blaenoriaethau lleol tra bod yr ail gam yn nodi prosiectau a oedd yn haeddu cael eu harchwilio ymhellach a llwyddodd y rhaglen hon ar y cam hwn.

> 'Sgoriodd cais y Rhaglen Buddsoddi mewn Canol Trefi yn uchel iawn dim ond oherwydd ei bod yn mynd i'r afael â phopeth yr oeddem yn edrych amdano drwy'r UKSPF.' (Tîm UKSPF Sir y Fflint)


O ran llywodraethu, teimlai arweinwyr strategol yng Nghyngor Sir y Fflint fod y rhaglen yn cyd-fynd yn dda â rhaglenni eraill ar yr un pryd ag yn ategu modelau cyllid a monitro eraill.

Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid strategol a gyfwelwyd yn credu bod llywodraethu'r rhaglen yn un o'i chryfderau allweddol ac roedd rhanddeiliaid strategol yn cymeradwyo'r arweinyddiaeth angerddol a ddangoswyd a'r holl waith a wnaed gan Dîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint i gyflawni a rhagori ar eu targedau a darparu rhaglen gyfannol a realistig.

Teimlai rhanddeiliaid strategol fod y canllawiau gan yr Awdurdod Lleol arweiniol (Cyngor Sir Gwynedd) yn eithaf eang ac yn brin o ran manylion (o gymharu â chanllawiau cronfeydd strwythurol blaenorol yr UE). Er enghraifft, mae angen i allbynnau a chanlyniadau fod yn gyfarwyddol yn hytrach nag yn oddrychol neu byddai sefyllfa o gymharu 'afalau a gellyg'. Dadleuwyd bod y canllawiau tystiolaeth a ddarparwyd ar gyfer allbynnau UKSPF yn rhy amwys a'u bod yn agored i ddehongliadau gwahanol er y dylid cydnabod bod llawer o hyn yn ymwneud â chanllawiau llywodraeth y DU yn hytrach na chanllawiau a ddatblygwyd gan yr Awdurdod Lleol arweiniol.

Mae'r strwythur rheoli a llywodraethu ar gyfer y rhaglen wedi dilyn fformat 'pyramid rheoli trionglog' fel y gwelir isod:

Ffigur 4.1: Strwythur rheoli a llywodraethu – rhaglen TCIP




Mae pob prosiect yn atebol i fwrdd rhaglen UKSPF sydd, trwy'r grŵp Pobl a Lleoedd yn ateb i'r Grŵp Adfer Economaidd (dylid nodi bod y grŵp hwn wedi'i ailenwi yn Grŵp Cydweithredu Economaidd ar ôl datblygu'r strwythur hwn). Mae'r grŵp Pobl a Lleoedd yn craffu ac yn cefnogi rhoi prosiectau ar waith i sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu cyflawni. Mae rheolaeth y rhaglen wedyn yn gysylltiedig â'i llywodraethu gan fod pob penderfyniad gweithredol yn cael ei wneud gan gabinet ffurfiol Cyngor Sir y Fflint.

# 5. Canfyddiadau – ar lefel y prosiectau

Mae'r adran hon yn cyflwyno adolygiadau o bob prosiect gan sôn am nodau ac amcanion a chyflawniadau'r prosiect cyn symud ymlaen i drafod cryfderau a gwendidau, gwersi a ddysgwyd ac etifeddiaeth y prosiect dan sylw.

## 5.1 Prosiect 1 - Cynllun Grant Gwella Eiddo Canol Trefi (TCPIG)

Ffilm gwerthuso Prosiect 1: https://www.youtube.com/watch?v=17n0NeEdnnc

### 5.1.1 Dyluniad

Pwrpas cynllun TCPIG oedd gwella eiddo masnachol yng nghanol trefi ar draws Sir y Fflint drwy gynllun grant wedi'i drefnu gan banel grantiau. Y nod cychwynnol oedd gwella o leiaf 12 eiddo a thua 500 m² o arwynebedd llawr masnachol. Roedd grantiau cyfalaf yn amrywio o £5,000 i £50,000 ar gael, yn cwmpasu hyd at 70% o gostau cymwys y prosiect. Roedd yn rhaid i fuddiolwyr (perchnogion eiddo neu denantiaid hirdymor) ddarparu arian cyfatebol ar gyfer y 30% arall.

Roedd gwelliannau cymwys yn cynnwys gwaith allanol fel gwelliannau blaen siop, uwchraddio ffenestri arddangos, gwell arwyddion, ffenestri a drysau newydd, goleuadau allanol, toeau a simneiau, systemau dŵr glaw, rendro, glanhau neu atgyweirio cerrig, ail-bwyntio, a gwaith strwythurol. Ariannwyd gwaith mewnol hefyd ond dim ond fel rhan o becyn cynhwysfawr a oedd yn cynnwys gwelliannau allanol.

Ffigur 5.1 Lluniau cyn y prosiect ac wedyn o HiQ Tyres ac Autocare yn Queensferry






Roedd yr ymgeiswyr wedi cyflogi gweithwyr proffesiynol cymwys (e.e. penseiri, syrfewyr meintiau, contractwyr adeiladu) i ddylunio a gweithredu eu prosiectau. Roedd angen i geisiadau am arian ddangos gwerth am arian, manteision diriaethol i'r eiddo a chanol y dref, ac aliniad ag amserlen y prosiect.

Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint oedd yn goruchwylio'r cynllun, gan ei hyrwyddo, rheoli'r broses ymgeisio am grantiau a'u dyfarnu, ynghyd â monitro canlyniadau. Hwy hefyd oedd wedi cynorthwyo perchnogion eiddo gydag ymholiadau cychwynnol, datblygu prosiectau, a pharatoi ceisiadau i sicrhau aliniad â blaenoriaethau creu lleoedd ac adfywio canol trefi. Cefnogai timau cyfreithiol a chyllid Cyngor Sir y Fflint y broses gweinyddu grantiau i sicrhau diwydrwydd dyladwy ar gyfer pob prosiect.

Cymeradwyodd y panel grantiau gyfanswm o 14 o gynigion i wella eiddo yng nghanol tref, gydag un eiddo wedi cael dau grant gwahanol. O ganlyniad, roedd 13 o fuddiolwyr unigryw. Mae'r prosiect hwn wedi rhagori ar ei darged, gan sicrhau gwelliannau i 13 o adeiladau (o gymharu â'r 12 yr ymrwymwyd iddynt yn wreiddiol yn y cais cam dau).

Enghraifft o brosiect llwyddiannus yw'r adeilad sy'n gartref i'r busnes 'Full Circle Security'. Cyn iddynt ei brynu, roedd yn adeilad gwag. Dyfarnwyd grant i'r ymgeisydd i gael lôn newydd o flaen yr adeilad, rendro, gosod ffenestri a drysau newydd, pwynt gwefru ceir trydan a ffenestri Velux newydd. Mae mwy o waith wedi'i wneud drwy swm mawr o fuddsoddiad preifat i godi'r adeilad i safonau modern. Mae'r gwelliant yn yr adeilad wedi arwain at ehangu busnes ac, yn ei dro, mae dwy swydd newydd wedi'u creu.

Cafodd rhaglen y TCPIG ei threialu ar raddfa lai mewn tair tref ar draws Sir y Fflint ym mlwyddyn ariannol 2023-24 drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru ac felly dim ond mân newidiadau oedd eu hangen i ddyluniad y prosiect i'w wneud yn berthnasol i UKSPF. Wrth bwyso a mesur, teimlai rheolwr y prosiect y gallai canllawiau gwell, o bosibl drwy ddefnyddio Cwestiynau Cyffredin ehangach, fod wedi gwella'r ddarpariaeth gyffredinol.

### 5.1.2 Canlyniad yr arolwg i fuddiolwyr

Cafwyd wyth ymateb i'n harolwg allan o 11[3] posibl gyda phawb yn gwybod bod y cyllid wedi dod o UKSPF. Dywedodd chwech o bob wyth busnes eu bod wedi dod i wybod am gynllun y TCPIG i wella eiddo trwy Gyngor Sir y Fflint a dim ond un ymatebwr a glywodd amdano drwy rywun arall yn sôn.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiadau bod y broses gwneud cais am grant yn syml, bod faint o wybodaeth oedd ei hangen yn rhesymol a bod adborth yn amserol ac yn adeiladol. Pan ofynnwyd a oedd faint o wybodaeth y gofynnwyd amdani yn rhesymol, dywedodd 7 o'r 8 (88%) eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf. Yn olaf, o ran bod adborth gan Gyngor Sir y Fflint yn amserol ac yn adeiladol roedd yr holl ymatebwyr (8/8 – 100%) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod hynny'n wir.


Roedd bron pob un o'r ymatebwyr yn fodlon iawn â'r broses gwneud cais am grant, ond cwynodd un ymatebwr fod rhywfaint o oedi yn y broses pan ymddangosai bod diffyg cyfathrebu rhwng adrannau'r Cyngor ac agwedd gweithio 'seilo' wrth i un adran ymddangos fel petai'n amharod i wthio adrannau eraill am y wybodaeth angenrheidiol i symud y cais yn ei flaen.

[3] Roedd 11 wedi'u cynnwys o'r cyfanswm o 13. Roedd y 2 arall (o 13) wedi dechrau'n ddiweddarach ac yn dal ati i wneud hynny pan gynhaliwyd yr ymchwil.

Roedd buddiolwyr grantiau hefyd yn hapus â phrydlondeb y taliad a dywedodd yr holl ymatebwyr fod cyllid y grant wedi'i dalu'n brydlon ar ôl iddynt gyflwyno eu hawliad. Yn ogystal, teimlai'r holl ymatebwyr mai gweithio'n dda wnaeth y trefniant mai'r grant lleiaf oedd ar gael oedd £5000 a'r uchaf yn £50,000, a hyd at 70% o gyfanswm y costau yn gymwys i gael eu talu gan y grant.

Pan ofynnwyd 'beth fyddai wedi digwydd heb y grant' byddai'r rhan fwyaf o'r buddiolwyr naill ai wedi dal ati ond ar lefel is o ran ansawdd neu ni fyddent wedi symud ymlaen o gwbl. Am y gweddill, roedd cael y grant wedi cyflymu eu buddsoddiad yn eu heiddo. Gellir dweud felly bod y cynllun grant i wella eiddo wedi bod yn allweddol o ran rhoi modd i fusnesau fwrw ati i wneud gwelliannau i'w hadeiladau yng nghanol trefi Sir y Fflint.

Ffigur 5.2: Beth fyddech chi wedi'i wneud heb y cymorth a gafwyd o'r grant?




'Roedd tîm adfywio Sir y Fflint yn frwdfrydig iawn, yn gefnogol ac yn barod i helpu o'r dechrau i'r diwedd. Dyma brosiect wedi'i drefnu'n dda sydd wedi cael effaith gadarnhaol aruthrol ar yr adeilad a'r ardal gyfagos yn y dref y mae ynddo… ffordd wych o wella'r ardal.' (Ymatebydd Prosiect 1)

Roedd saith o'r 13 yn wag cyn i'r grantiau gael eu dyfarnu, pan ofynnwyd "Pa mor llwyddiannus fu'r gwelliant eiddo ar raddfa o 1 i 5 (1 – ddim yn llwyddiannus; 5 – llwyddiannus iawn)" rhoddodd saith o'r wyth ymatebwr sgôr o 5 allan o 5 (roedd y llall wedi sgôr o 4).

Teimlai’r rhan fwyaf o’r ymatebwyr fod y gwaith yr oedd y grant yn ei alluogi wedi helpu i wella canol eu tref (dywedodd 7/8 o ymatebwyr fod y gwelliannau a wnaent wedi helpu i wella canol y dref yn gyffredinol) yn ogystal â meithrin gwell ymdeimlad o gymuned yn yr ardal (6/8).

Dywedodd pump o’r ymatebwyr fod y grant wedi arwain at greu swyddi newydd yn eu sefydliadau gyda 7 swydd amser llawn a 6 swydd rhan amser wedi’u creu gan y rhai a ymatebodd i’n harolwg. O ailadrodd y gyfradd creu swyddi ar gyfer yr holl dderbynwyr grant (yn hytrach na’r rhai a ymatebodd i’r arolwg yn unig) byddai hyn yn cyfateb i 11 swydd amser llawn a 10 swydd rhan amser.

Cyfwelwyd dau fuddiolwr y cynllun grant gan Follow Films ac roedd eu straeon hefyd yn cefnogi’r ymdeimlad cyffredinol o bositifrwydd mewn ymateb i’r prosiect. Dywedodd un ymatebwr:

> ‘Ers Covid dwi wedi cael dim byd ond cefnogaeth gan Gyngor Sir y Fflint. Roeddent yn barod iawn i dderbyn y gwaith roedden ni eisiau ei wneud i wella’r safle a gwella sut roedd y stryd fawr yn edrych. Dwi’n 100% yn hapus efo fo. Methu gweld bai.’ (Buddiolwr Prosiect 1)

Teimlwyd bod cyflwyno’r prosiect hwn hefyd wedi llwyddo i wella enw da Cyngor Sir y Fflint ymhlith y gymuned leol.

### 5.1.3 Cryfderau

Yr hyn a ystyriwyd yn gryfder gwirioneddol oedd y ffordd yr oedd y prosiect wedi rhoi arweiniad i ymgeiswyr drwy’r broses gwneud cais am arian ac wrth gefnogi dyluniad y cais er mwyn iddo fod o fudd i ganol y dref yn ogystal â’r ymgeisydd unigol:

> ‘Byddaf bob amser yn rhoi awgrymiadau i ddweud mai dyma beth fyddai’n gwneud y prosiect hwn yn brosiect gwell ac yn fwy derbyniol gan banel annibynnol.’
>
> ‘Rwyf wedi llwyddo i symud pethau er mwyn gwneud y gorau dros y dref ac nid dim ond y landlord mewn gwirionedd.’ (Rheolwr Prosiect 1)

Cryfder arall fu cefnogi busnesau a fyddai fel arall wedi ceisio adleoli y tu allan i ganol y dref. Yn anecdotaidd, yn ôl y Rheolwr Prosiect roedd enghreifftiau amrywiol o hyn yn digwydd:

> ‘Drwy roi rhywbeth i mewn, rhywfaint o ymyrraeth i helpu busnes i aros yn y dref honno, gwella eu busnes yn y dref, bydd yn helpu i adfywio’r dref ei hun.’
> (Rheolwr Prosiect 1)

Mae’r prosiect wedi galluogi’r hyn a elwir yn ‘allanoldebau cadarnhaol’ lle mae adfywio adeiladau yng nghanol trefi wedi arwain at yr ardal yn edrych ac yn teimlo’n well gyda’r potensial i ddenu pobl yn ôl i ganol trefi i wario’n lleol.

### 5.1.4 Etifeddiaeth

Mae elfen gylchol i agweddau etifeddiaeth y prosiect penodol hwn. Dadleuir y bydd gwella adeiladau yng nghanol trefi, fel y mae’r prosiect hwn wedi’i wneud, yn denu ac yn cael sgil-effeithiau ar yr economi leol drwy ddenu mwy o bobl a bydd eu gwariant yn gymesur o fewn ardaloedd lleol ac felly yn rhoi hwb pellach i economïau canol y trefi.

Pan welir buddsoddiad mewn lleoliad, mae cymunedau yn gweld hyder yn y lleoliad hwnnw, mae eiddo cyfagos wedyn yn cael eu hannog i fuddsoddi, ond mewn lleoliadau mwy ymylol mae’n dal angen ymyrraeth gan y sector cyhoeddus i hwyluso hynny.

## 5.2 Prosiect 2 – Datblygu Prosiectau ar gyfer Buddsoddi yn y Dyfodol

Ffilm gwerthuso Prosiect 2: https://www.youtube.com/watch?v=wmBvXTTB89E

### 5.2.1 Dyluniad

Cynlluniwyd y prosiect i fynd i’r afael ag angen a nodwyd am waith paratoi mewn ymdrechion adfywio. Gan fod tîm adfywio Cyngor Sir y Fflint newydd ei sefydlu, cyfyngedig oedd ei adnoddau a’i gapasiti, gan arwain at lai o brosiectau a oedd yn barod i’w rhoi ar waith yn syth. Trwy ddatblygu astudiaethau dichonoldeb ac achosion busnes ar draws saith tref, creodd y prosiect restr o fentrau posibl, gan alluogi’r Cyngor i fynd ati’n fwy strategol i ystyried cyfleoedd buddsoddi ac o bosibl fanteisio ar gyllid cyfalaf yn y dyfodol.

Un o gryfderau amlwg cynllun y prosiect oedd y cydweithredu, gan dynnu ar y sectorau cymunedol, gwirfoddol a phreifat i fod yn fuddiolwyr ac yn ddefnyddwyr terfynol. Nid yn unig roedd y model hwn wedi hwyluso ymgysylltu ac ymgynghori ehangach, ond roedd hefyd wedi pontio bwlch allweddol i sefydliadau a fyddai fel arall wedi cael trafferth ariannu gwaith dichonoldeb neu gyfalaf yn eu camau cyntaf.

Wrth oruchwylio pob menter yn uniongyrchol, sicrhaodd y Cyngor ddefnyddio proses safonol ar gyfer comisiynu cymorth ymgynghori allanol, ar yr un pryd â theilwra'r ymdrechion i ateb anghenion gwahanol y rhanddeiliaid. Roedd rheolaeth fewnol gref wedi atgyfnerthu'r cysondeb hwn ymhellach, gan sicrhau ymagwedd gydlynol a chyson drwy gydol y prosiect, ac ar gyfer gwaith datblygu yn y dyfodol gan y tîm adfywio. Ymhellach, teimlwyd bod y dewis hwn o ran y dyluniad yn fwy effeithlon na dull seiliedig ar grantiau cyfalaf, a fyddai, fel y gwelir mewn rhan arall o'r rhaglen, wedi bod yn fwy dwys o ran adnoddau ac yn dibynnu ar dderbynwyr grantiau nad ydynt o bosibl â'r arbenigedd ar gyfer gwaith dichonoldeb.

Elfen gref arall o ddyluniad y prosiect oedd ei allu i gael gafael ar gyllid buddsoddi cychwynnol i ddenu cyd-fuddsoddiad. Roedd sawl sefydliad buddiolwyr wedyn wedi cyfrannu at y cydariannu, sef arian cyfatebol ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Un enghraifft amlwg yw'r gwaith System Ddraenio Gynaliadwy (SuDS) ym Mwcle, lle denodd buddsoddiad o ychydig llai na £4,000 bron i £16,000 mewn cymorth allanol gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn dangos sut y gall gwariant cymharol fach o gyllid y Cyngor gynhyrchu ymrwymiad ariannol llawer mwy o ffynonellau eraill, gan gynorthwyo cynlluniau mwy uchelgeisiol a sicrhau hyfywedd hirdymor y prosiect.

Er bod dyluniad y prosiect wedi bod yn effeithiol ar y cyfan, awgrymodd rhai rhanddeiliaid addasiadau er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl. Byddai dull dau gam ar gyfer dewis a datblygu prosiectau wedi bod yn fuddiol, gan fod yr amserlen ariannu fer wedi cyfyngu rhywfaint ar y dull presennol. Pe bai amserlen hirach wedi bod ar gael, gellid bod wedi cyflwyno ail ffenestr i fireinio a datblygu prosiectau ymhellach.

### 5.2.2 Cryfderau a Heriau

Mae'r prosiect wedi gosod sylfaen gadarn ar gyfer cyfleoedd buddsoddi yn y dyfodol. Cryfder allweddol oedd y rheolaeth dynn ar brosiectau, a hynny wedi sicrhau bod rhanddeiliaid a buddiolwyr yn cael gwybod am linellau amser ac yn integreiddio gweithgareddau prosiect yn eu rhaglenni ehangach. Helpodd y dull strwythuredig hwn i hwyluso'r prif fentrau, megis datblygu cynllun busnes ar gyfer Rivertown a arweiniodd at gais llwyddiannus am gyllid o £750,000 gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, nododd y rhaglen brosiectau hyfyw posibl ac yna eu halinio â dyraniadau cyllid Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, gan roi Sir y Fflint mewn sefyllfa i ddatblygu'r mentrau hyn pan fydd adnoddau ar gael.

Nododd rhanddeiliaid hefyd fod y prosiect wedi wynebu rhai heriau. Un rhwystr oedd mai prin oedd dealltwriaeth rhai rhanddeiliaid ynghylch modelau a gofynion ariannu, megis yr angen am gyfraniadau ariannol ymlaen llaw neu arian cyfatebol. Roedd y diffyg ymwybyddiaeth hwn yn cymhlethu ymgysylltiad cynnar a datblygiad prosiectau, gan ei gwneud yn ofynnol i'r tîm roi arweiniad ychwanegol i bontio bylchau gwybodaeth. Her arall oedd gallu ac adnoddau cyfyngedig rhanddeiliaid lleol, gyda nifer fach o unigolion yn aml yn gyfrifol am sawl cyfrifoldeb, o ymgeisio am gyllid i weithio ar gynlluniau busnes.

### 5.2.3 Etifeddiaeth

Mae sawl prosiect wedi dangos eu dichonoldeb, gan agor llwybrau ar gyfer cymorth ariannol yn y dyfodol. O ganlyniad, mae hyn wedi cryfhau enw da Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint, gan fod rhanddeiliaid lleol yn troi fwyfwy at y tîm am arweiniad, atgyfeirio a chymorth wrth ddatblygu prosiectau. Y gobaith yw y gall y cydweithio cryf â buddiolwyr barhau i gamau nesaf y prosiectau priodol, y tu hwnt i baramedrau'r rhaglen ariannu hon.

## 5.3 Prosiect 3 – Buddsoddi mewn Mannau Gwyrdd

Ffilm gwerthuso Prosiect 3: https://www.youtube.com/watch?v=Yn_22eozXl4

### 5.3.1 Dyluniad

Roedd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar gael gwelliannau i'r seilwaith gwyrdd yn nhrefi Sir y Fflint, yn enwedig Bwcle, Treffynnon, a Shotton. Roedd y trefi hyn wedi cwblhau archwiliadau cynhwysfawr ar eu seilwaith gwyrdd (Gwanwyn 2023) a'r rheiny wedi amlinellu ymyriadau blaenoriaeth, gan gynnwys costau manwl a chynlluniau cynnal a chadw ar gyfer pob cynnig seilwaith gwyrdd.

Roedd y buddsoddiadau seilwaith gwyrdd yn cynnwys plannu ar strydoedd, waliau gwyrdd, gwelliannau i nodweddion prif ffyrdd cyrraedd y canol a gwelliannau i fannau gyda'r nod o fod o fudd i fusnesau lleol, y cyhoedd, a'r amgylchedd drwy wneud y trefi'n fwy deniadol, a thrwy hynny annog mwy o ymwelwyr, eu denu i aros yn hirach, a hyn yn arwain at wariant uwch. Yn ogystal, mae'r buddsoddiad wedi cefnogi amcanion lleihau carbon a amlinellwyd yn Strategaeth Lleihau Carbon Cyngor Sir y Fflint ac mae wedi'i gynllunio i fod yn hygyrch i bob rhan o'r gymuned.

Mae'r prosiect wedi'i reoli gan Dîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint mewn cydweithrediad â Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor, gan adeiladu ar bartneriaeth bresennol a oedd wedi comisiynu'r archwiliadau seilwaith gwyrdd diweddar yn llwyddiannus.

Mae'r prosiect yn cynnwys pedwar gweithgaredd yn bennaf, rhai ohonynt wedi'u nodi gan Brosiect 2 (Datblygu Prosiectau ar gyfer Buddsoddi yn y Dyfodol) trwy Archwiliadau Seilwaith Gwyrdd:

- Prosiect Sgrinio Gwyrdd (gosod planwyr sgrinio gwyrdd y tu allan i ysgol sydd wedi'i lleoli wrth ymyl ffordd fawr): Ysgol Croes Atti, Shotton.
- Prosiect Mannau Gwyrdd Ysgolion: codwyd gosodiadau amrywiol gan gynnwys glasbrennau i greu gwrychoedd a phlannu coed mewn pum ysgol ledled Sir y Fflint.
- Prosiect Pyllau i Goed Trefol: Cei Connah – gosod pyllau coed trefol yng nghanol tref Cei Connah.
- Gardd Goffa Cei Connah: creu Man Gwyrdd fel rhan o'r amwynder presennol o amgylch Cofeb Ryfel Cei Connah.

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau bellach wedi'u cwblhau ar ôl oedi cychwynnol oherwydd i fis Hydref fod yn anarferol o fwyn.

Cyflawnodd y prosiect yn dda yn erbyn dangosyddion allweddol. Y targed oedd 25 o goed a 100 $m^2$ o welliannau i fannau gwyrdd a chwe amwynder/cyfleuster wedi'u gwella. Mae cwblhau'r Prosiect Coed Trefol, y Prosiect Mannau Gwyrdd Ysgolion a'r Ardd Goffa yn mynd â chyfanswm y metr sgwâr o fannau gwyrdd a wellwyd ym Mhrosiect 3 hyd yma i 717.14$m^2$, sy'n or-gyflawni o 617.14$m^2$ hyd yma, yn erbyn y targed allbwn o 100$m^2$. Cyflawnwyd y targed plannu coed hefyd gyda chyfanswm o 360 o goed wedi'u plannu yn erbyn y targed o 25. Mae dau ymyriad pellach sydd ar y gweill ar adeg ysgrifennu'r adroddiad gwerthuso hwn yn mynd i wella mannau gwyrdd o amgylch Canolfan Dreftadaeth Dociau Cei Connah, gan felly gynyddu ymhellach fyth y $m^2$ a nifer y coed terfynol.

Fel rhan o'r cynllun yng Nghroes Atti ac mewn ysgolion eraill, mae cyfres o gyfleoedd dysgu wedi'u cynnal ar faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd. Cafodd Gardd Goffa Cei Connah gyllid drwy'r Prosiect 3 hwn a thrwy brosiect 5 (Grantiau Gweithgareddau a Digwyddiadau) i wella'r amwynder. Gellir gweld lluniau o gyfweliadau â buddiolwyr ynghylch y prosiectau seilwaith gwyrdd hyn: https://www.youtube.com/watch?v=Yn_22eozXl4.

Yn ôl y buddiolwr a wnaeth gais am gyllid ar gyfer Gardd Goffa Cei Connah:

> '(Cyllid UKSPF) oedd fy ngobaith olaf a wnes i ddim edrych yn ôl wedyn. Mae yna 30 o blanwyr ac maen nhw'n plannu planhigion parhaol… mewn blynyddoedd i ddod dyma'r math o beth fydd yn cadw'r lle i fynd.' (Buddiolwr Prosiect 3)

Yn ddiweddarach, dywedodd yr un buddiolwr wrth y rheolwr prosiect fod grwpiau cymunedol lleol wedi gofyn am gael noddi plannwr i sicrhau ei fod yn para'n hir ac yn cael ei gynnal a'i gadw. Nodir hyn i fod yn ganlyniad nas rhagwelwyd sy'n ymwneud ag ymgysylltu â'r gymuned, buddsoddiad, ac ymdeimlad o falchder mewn lle.

### 5.3.2 Adborth gan randdeiliaid a buddiolwyr ehangach

Dywedodd cynrychiolydd o dîm bioamrywiaeth Cyngor Sir y Fflint fod Prosiect 6, yn enwedig yr Archwiliadau Seilwaith Gwyrdd, yn gatalydd ar gyfer y gwaith cydweithredol yn y prosiect hwn. Ar ôl creu'r ddau archwiliad cyntaf (trwy Brosiect 2), roedd modd sefydlu grŵp traws-adrannol yn y Cyngor – sef Gweithgor Seilwaith Gwyrdd Canol Trefi gydag aelodau o'r Gwasanaethau Stryd,[4] yr adran addysg, ansawdd aer, a'r adran beirianneg. Yn wir, mae'r archwiliadau wedi galluogi nodi prosiectau'n gynnar ac wedi hybu meddwl am seilwaith gwyrdd.

[4] Pwynt cyswllt hawdd a sefydlwyd gan Gyngor Sir y Fflint ar gyfer yr holl wasanaethau sy'n gysylltiedig â strydoedd, priffyrdd a mannau agored.

Roedd tîm newid hinsawdd y Cyngor hefyd wedi bod yn rhan drwy asesu effeithiau amgylcheddol y prosiectau ym Mhrosiect 3. Roeddynt wedi egluro manteision seilwaith gwyrdd i'r gynulleidfa ehangach yn y Cyngor. Dywedwyd ganddynt mai cyfyngiadau adnoddau sydd fel arfer yn atal y Cyngor rhag cynnal prosiectau amrywiol a chyn belled â bod hyn yn wir mae cyllid UKSPF wedi bod yn allweddol i roi'r prosiectau hyn ar waith. O ran cydbwysedd y buddion, er mai effaith gymharol fach a gafodd y prosiectau o safbwynt hinsawdd, mae manteision ehangach o ran ansawdd aer, ansawdd bywyd a gwella atyniad canol trefi o ganlyniad i'r buddsoddiadau hyn.

Oherwydd amseru'r tymor plannu, cwblhawyd y rhan fwyaf o'r ymyriadau seilwaith gwyrdd yn dilyn cyfnod casglu data'r gwerthusiad hwn. Fodd bynnag, dosbarthodd Cyngor Sir y Fflint arolwg yn casglu barn plant ysgol am yr ymyriadau seilwaith gwyrdd, gan dderbyn 53 o ymatebion cadarnhaol ar 11 Chwefror 2025. Ynghyd â'r adroddiadau cadarnhaol gan staff a myfyrwyr yn Ysgol Uwchradd y Fflint, a gasglwyd yn y ffilm werthuso, roedd adborth o'r holiaduron yn cynnwys:

> 'Diolch am ein helpu i wneud ein hysgol yn fwy ecogyfeillgar.'
>
> 'Rwy'n teimlo ei fod yn ychwanegiad da i'r amgylchedd a natur i ni ac i'r bobl sy'n cerdded heibio, byddan nhw yn gallu sylwi ar y bywyd gwyllt a sylwi ei fod yn gwneud yr ardal o'u cwmpas yn well.' (Buddiolwyr Prosiect 3, Ysgol Bryn Deva)

### 5.3.3 Etifeddiaeth

Mae buddsoddiadau'r prosiect wedi esgor ar effeithiau gweledol, amgylcheddol a chymunedol trwy seilwaith gwyrdd. Bydd modd adeiladu yn y dyfodol ar yr ymgysylltiad cymunedol bywiog a'r datblygu syniadau a bydd cadw'r ymgysylltiad hwn yn hollbwysig wrth symud ymlaen.

Mae'r buddsoddiad hefyd wedi rhoi modd i bobl o bob cefndir gael mynediad i fannau gwyrdd. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r holl gymuned ymwneud â'u hamgylchedd lleol a gwerthfawrogi'r mannau gwyrdd sydd wedi'u creu.

Ymhellach, mae cytundebau cynnal a chadw wedi'u rhoi ar waith ar gyfer ysgolion, y Pwyllgor Rhyngwasanaeth a Gwasanaethau Stryd Cyngor Sir y Fflint ar gyfer y pedwar prosiect i sicrhau cynnal a chadw'r asedau seilwaith gwyrdd sydd wedi cael eu datblygu.

## 5.4 Prosiect 4 – Cyflogi Swyddog Hyrwyddo ac Ymgysylltu Marchnadoedd

Ffilm gwerthuso Prosiect 4: https://www.youtube.com/watch?v=LjPdWKHNIno

### 5.4.1 Dyluniad

Mae'r prosiect hwn wedi cynnwys recriwtio unigolyn i swydd newydd am gyfnod penodol, sef: Swyddog Hyrwyddo ac Ymgysylltu (Hydref 2023 – Mawrth 2025), i gefnogi'r Tîm Marchnadoedd presennol i reoli marchnadoedd dan do ac yn yr awyr agored yn yr Wyddgrug a Threffynnon. Mae'r rôl hefyd wedi cyfrannu at sefydlu marchnadoedd artisan a digwyddiadau crefftwyr, a gellid cyflwyno'r rhain maes o law i ganol trefi eraill ledled Sir y Fflint.


Mae deiliad y swydd wedi ymgysylltu â stondinwyr a rhanddeiliaid allweddol i ddefnyddio ymgyrchoedd cyfathrebu a hyrwyddo sydd â'r nod o gynyddu'r defnydd o'r farchnad, cynyddu nifer yr ymwelwyr, hybu gwariant, a gwella hyfywedd a bywiogrwydd y marchnadoedd. Mae'r prosiect wedi bod â rhan hanfodol wrth ddatblygu strategaeth ar gyfer y dyfodol ar gyfer marchnadoedd yn Sir y Fflint.

Mae rhai o'r pethau yr oedd y prosiectau hyn wedi'u cyflawni fel a ganlyn:


- O ganlyniad i gyhoeddusrwydd ac ymgysylltu lleol, llwyddodd y Swyddog Hyrwyddo ac Ymgysylltu i sefydlu marchnad Masnachwyr Ifanc yn yr Wyddgrug ac mae wedi sicrhau stondinau i'r masnachwyr ifanc yng Ngŵyl Fwyd yr Wyddgrug ym mis Medi. Cefnogwyd hyn ac elfennau ychwanegol eraill i'r ŵyl drwy'r cais am gyllid gan Bwyllgor yr Ŵyl i'r Grant Gweithgareddau a Digwyddiadau ym Mhrosiect 5. Deellir bod y cymorth hwn i fasnachwyr ifanc wedi bod yn allweddol wrth ddenu Ffederasiwn Cenedlaethol Masnachwyr Marchnad yn ôl i'r Wyddgrug yn 2025 i gynnal rhagbrofion lleol a rownd derfynol ranbarthol Gwobrau Masnachwyr Marchnad Ifanc 2025.
- Mae cynnwys Marchnad yr Wyddgrug fel cyrchfan ar gyfer teithiau bws hanner diwrnod wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r farchnad yn sylweddol.
- Crëwyd dwy farchnad awyr agored newydd yn Sir y Fflint a chefnogwyd trydydd un drwy wneud y farchnad yn fwy deniadol a hyfyw drwy greu digwyddiadau yno.
- Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau megis y digwyddiad 'D-day' a digwyddiadau dros dro newydd dros yr haf mewn partneriaeth ag Outside Lives, elusen leol.

O ran cynyddu nifer yr ymwelwyr, mae'r prosiect wedi casglu rhywfaint o ddata drwy ddefnyddio synwyryddion ar bolion lamp i gofnodi signalau ffôn symudol. Nododd canlyniadau'r dadansoddiad hwn gynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr yn ystod digwyddiad D-Day o gymharu â'r wythnos flaenorol:

Ffigur 5.3: Nifer yr ymwelwyr – dim digwyddiad (1af Mehefin)




Ffigur 5.4: Nifer yr ymwelwyr – digwyddiad D-Day (8fed Mehefin)




Sefydlwyd y prosiect er mwyn creu cysylltiadau rhwng sefydliadau a chyllidwyr posibl a theimlai rheolwr y prosiect fod yr elfen hon yn gweithio'n dda iawn. Hefyd, credid bod y prosiect yn cyd-fynd â Phrosiect 5 gan fod y grantiau oedd ar gael yn ategu'r digwyddiadau marchnad eraill a oedd eisoes yn digwydd ac yn wir yn cynyddu'r bywiogrwydd ymhellach. O arolwg cychwynnol i fasnachwyr marchnad a nifer fach o bobl leol, nodwyd mai'r prif ffyrdd i gynyddu nifer yr ymwelwyr â'r marchnadoedd oedd teithiau bws a chynnal digwyddiadau. Elfen arall y prosiect sydd wedi dod â llwyddiant yw trefnu teithiau bws mor bell i ffwrdd â Lerpwl i ymweld â threfi marchnad yr Wyddgrug a Threffynnon. Cafodd hyn wedyn ei fwydo i mewn i ddyluniad y prosiect a chynigai fecanwaith ar gyfer dod ag ymwelwyr i'r marchnadoedd a'r tîm yn edrych i adeiladu ar hyn.

Holwyd aelodau'r cyhoedd drwy arolygon am eu barn am y marchnadoedd awyr agored yn yr Wyddgrug a Threffynnon. Dangosodd yr arolwg cyntaf (n=38 a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2023) fod y nifer a oedd yn ystyried bod marchnadoedd yn "dda/da iawn" yn 35% (17 o 49 o ymatebion). Roedd yr ail arolwg a gynhaliwyd ar-lein trwy GiveMyView (Tachwedd 2024) wedi cael nifer sylweddol uwch o ymatebwyr (n=820) ac ymateb mwy cadarnhaol gyda 59% o ymatebwyr yn dweud bod eu barn am ddwy farchnad Sir y Fflint yn "dda/da iawn" (678 o 1,154 o ymatebion). Wrth archwilio hyn ar lefel tref farchnad, mae'r cynnydd yn y canran yn y farn gadarnhaol ers dechrau'r prosiect wedi bod yn 6% ar gyfer Treffynnon a 37% ar gyfer yr Wyddgrug. Mae trydydd arolwg yn dal yn fyw ar-lein ar hyn o bryd gyda'r canlyniadau i'w dadansoddi fel rhan o adroddiad cynnydd terfynol y rhaglen a'r canfyddiadau i'w defnyddio i lywio rhaglenni buddsoddi yn y dyfodol.

### 5.4.2 Adborth gan fuddiolwyr

Ffigur 5.5: Marchnad yr Wyddgrug ar 19 Hydref 2024



Cafwyd ymatebion ansoddol gan fasnachwyr marchnad ifanc, trwy ffilm a gomisiynwyd fel rhan o'r Prosiect 4 hwn (https://www.youtube.com/watch?v=EstmCqsqQ70 ), sy'n rhoi cipolwg ar y sefyllfa ym marchnadoedd y trefi yn Sir y Fflint:

> 'Mae'r holl ardaloedd yn cael eu disgrifio fel trefi marchnad, a dydw i ddim yn meddwl bod fy nghenhedlaeth i'n deall beth oedd hynny'n ei olygu ... ond nawr mae [trefi marchnad] ar gynnydd ac fel newydd-ddyfodiad i'r farchnad ni allaf gredu pa mor groesawgar a hyfryd yw pawb.' (Buddiolwr Prosiect 4)

Rhoddodd masnachwr ifanc arall gipolwg i ni ar fanteision Prosiect 4:

> 'Mi wnes i ddechrau ymwneud â marchnad yr Wyddgrug am y tro cyntaf pan gefais gynnig stondin marchnad am ddim fel rhan o farchnad y Masnachwyr Ifanc. Roedd hwnnw'n gyfle anhygoel. Fe wnaethon ni greu cymuned anhygoel o bobl ifanc... fe wnaethon ni gysylltu â'n gilydd a chefnogi busnesau ein gilydd. Roedd yn gyfle bendigedig.' (Buddiolwr Prosiect 4)

Ffigur 5.6: Pobl ifanc yn dangos eu tystysgrif Gwobrau Masnachwyr Ifanc



### 5.4.3 Cryfderau a gwendidau

Mae’r prosiect wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr yn sgil cynnal digwyddiadau, ac mae perfformiad Swyddog Hyrwyddo ac Ymgysylltu Marchnadoedd wedi bod yn hollbwysig i lwyddiant y prosiect. Mae’r swyddog wedi bod â rhan bwysig wrth gynyddu ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth o’r marchnadoedd ac o’r amrywiaeth y mae’r farchnad yn ei gynnig yn yr Wyddgrug a Threffynnon.

Wrth fyfyrio ar lwyddiant y prosiect, un o’r meysydd y teimlid oedd yn cyfyngu ar lwyddiant y prosiect oedd y cyfyngiadau neu’r paramedrau ar yr hyn y gellid gwario’r grant arno. Unwaith eto, roedd dyhead i ymestyn yr amserlenni i alluogi’r tîm i adeiladu ar y gwaith da a oedd eisoes wedi’i wneud.

### 5.4.4 Etifeddiaeth

Mae cynlluniau ar y gweill i ailgynnal y digwyddiadau a drefnwyd fel rhan o’r prosiect. Mae sicrhau ymgysylltiad, nid yn unig â masnachwyr ond hefyd â’r cyhoedd ehangach wedi dod â man cyfarfod mwy cymdeithasol i’r trefi. “Mae’n creu profiadau da a chadarnhaol i’r gymuned.” (Rheolwr Prosiect 4)

Mae’r ymgysylltu â masnachwyr ifanc hefyd wedi rhoi cyfle iddynt dreialu masnachu a dechrau eu busnesau eu hunain, gan adeiladu cymuned o fasnachwyr ifanc ar gyfer y dref a manteisio ar gyfleoedd fel Gŵyl Fwyd yr Wyddgrug i arddangos eu cynnyrch.

## 5.5 Prosiect 5 – Cynllun Grant Gweithgareddau a Digwyddiadau yng Nghanol Trefi

Ffilm gwerthuso Prosiect 5: https://www.youtube.com/watch?v=j7DxAJcH4hM

### 5.5.1 Dyluniad

Cynlluniwyd y Cynllun Grant Digwyddiadau a Gweithgareddau yng Nghanol Trefi i wella bywiogrwydd a photensial creu lleoedd yng nghanol trefi Sir y Fflint. Gan gydnabod yr angen i gynyddu nifer yr ymwelwyr a bywiogi'r stryd fawr yn y trefi, cynigiodd Cyngor Sir y Fflint fenter â grantiau i alluogi grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol, busnesau a chynghorau tref i gynnal digwyddiadau a gweithgareddau. Mae gan y prosiect aliniad strategol cryf â siarter creu lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru (DCFW),[5] ac mae wedi'i ymgorffori yn y blaenoriaethau a amlinellir yn y siarter, sef yn bennaf pwysigrwydd cynnal gweithgareddau yng nghanol trefi fel llinyn allweddol creu lleoedd. Roedd y cynllun yn cynnig grantiau yn amrywio o £500 i £10,000, gyda 80% i'w gyfrannu gan y Cyngor ac 20% o arian cyfatebol. Tîm adfywio Cyngor Sir y Fflint oedd yn goruchwylio'r gwaith o weinyddu, cymeradwyo, hyrwyddo a monitro'r grantiau.

Ffigur 5.7 Gorymdaith Llusernau ym Mwcle



[5] Siarter Creu Lleoedd, Comisiwn Dylunio Cymru, 2020

Roedd rhanddeiliaid ar y cyfan o’r farn bod cynllun y prosiect yn gadarn ac yn cyd-fynd yn dda ag adfywio canol trefi Sir y Fflint a chynyddu nifer yr ymwelwyr. Ategwyd y farn hon gan fuddiolwyr ehangach megis cynghorau tref a nododd fod y grant yn atgyfnerthu eu gweithgareddau a’u digwyddiadau presennol, gan roi modd iddynt ehangu eu cwmpas a denu mwy o ymwelwyr. Yn ogystal, soniwyd bod casglu gwybodaeth fonitro yn fecanwaith adborth effeithiol, gan alluogi’r Cyngor i asesu buddion anuniongyrchol yn sgil cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a gwariant eilaidd mewn bwytai a busnesau lleol. Yn bwysig, roedd yr wybodaeth fonitro wedi galluogi tîm y prosiect i nodi heriau ac wedyn mynd ati’n rhagweithiol i daclo’r heriau hynny, er enghraifft, drwy roi cyngor i fuddiolwyr ar addasrwydd lleoliad yn seiliedig ar brofiad ymgeiswyr cynharach.

Bu’r prosiect hefyd yn effeithiol yn cael gafael ar adnoddau ychwanegol y tu hwnt i’r gymhareb arian cyfatebol safonol 80:20. Mewn un enghraifft nodedig, gwnaeth gŵyl Gymreig gais am £10,000 o’r cynllun i gefnogi digwyddiad gyda chyllideb o £50,000, gan gyfrannu’r £40,000 oedd yn weddill eu hunain.

Ymhellach, mae synergedd cymedrol rhwng y prosiect Gweithgareddau a Digwyddiadau yng Nghanol Trefi â phrosiectau eraill ar draws y rhaglen. Mae aliniad amlwg â Phrosiect 4 (Ymgysylltu â Marchnadoedd) ac mae gan yr Wyddgrug a Threffynnon fentrau marchnad sy’n cyd-fynd â’r digwyddiadau a ariennir gan y grant Gweithgareddau a Digwyddiadau. Mae’r prosiect wedi gweithio’n agos â’r tîm marchnadoedd i sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn cyd-fynd â’i gilydd, gan gryfhau’r cynnig.

Er gwaethaf y cryfderau hyn, roedd gofynion gwaith papur y cynllun yn ychydig o her, yn enwedig i grwpiau cymunedol llai nad oedd ganddynt lawer o brofiad gweinyddol. Arweiniodd hyn at fwy o ofyn am gymorth y Rheolwr Prosiect na’r disgwyl, gan roi straen adnoddau ychwanegol ar dîm a oedd eisoes yn fach. Awgrymodd rhanddeiliaid y byddai defnyddio ffurflenni electronig neu ffurflenni sydd fel holiadur yn helpu i leihau’r gorbenion gweinyddol hwn i ymgeiswyr a staff y cyngor.

### 5.5.2 Gweithredu

Ar y cyfan adroddodd rhanddeiliaid fod y Cynllun Grant Gweithgareddau a Digwyddiadau wedi’i gyflawni’n ddidrafferth. Er bod cyfranogwyr unigol wedi dod ar draws heriau o bryd i'w gilydd, megis anhawster i ragweld costau’n gywir neu fonitro presenoldeb ar gyfer digwyddiadau penodol, roedd y rhain fel arfer yn rhwydd ymdrin â nhw oherwydd natur hyblyg y grant.


Ffactor arall a gyfrannodd at y cyflawni effeithiol oedd y strwythur rheoli a oedd wedi lleihau cyswllt uniongyrchol rhwng y rheolwr prosiect a thimau UKSPF ehangach. Yn lle hynny, câi’r cyfathrebiadau eu sianelu drwy bwynt canolog, gan adael staff y prosiect yn rhydd i ganolbwyntio ar dasgau gweithredu craidd. Teimlai rhanddeiliaid fod y trefniant hwn yn atal cymhlethdod diangen mewn proses hawlio oedd eisoes yn ddwys.

Cafwyd gorgyflawni i raddau helaeth ar dargedau yn y prosiect hwn a llwyddodd elfennau megis nifer y digwyddiadau a gefnogwyd, nifer yr ymwelwyr a nifer y gwirfoddolwyr oll i ragori ar eu targedau.

### 5.5.3 Canlyniadau'r arolwg i fuddiolwyr

O ran canlyniadau'r arolwg ar gyfer y prosiect hwn, gwnaeth yr holl ymatebwyr (9) gais am grant, ac roedd pawb yn gwybod bod y cyllid wedi dod o UKSPF. Yn ogystal, dywedodd pawb fod yr arian grant wedi'i dalu'n brydlon ar ôl cyflwyno'u hawliad a dywedodd pawb fod y trefniant a gwerth y cyllid yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, (yn wahanol i ganfyddiadau Prosiect 1) roedd y rhan fwyaf o dderbynwyr y grant wedi clywed am y grant naill ai drwy rywun yn sôn neu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Ffigur 5.8: Sut daethoch chi i wybod am y Grant Gweithgareddau a Digwyddiadau gan Gyngor Sir y Fflint?




O ran y broses ymgeisio roedd y rhan fwyaf (7/9 – 78%) o ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y broses ymgeisio yn syml i'w chwblhau. Gofynnwyd a oedd faint o wybodaeth y gofynnwyd amdani yn rhesymol, dywedodd 6/9 – 67% eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â hynny. Yn olaf, o ran bod adborth gan Gyngor Sir y Fflint yn amserol ac yn adeiladol, roedd yr holl ymatebwyr (9/9 – 100%) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf fod hyn yn wir.


'Fel rhywun oedd yn gwneud cais am y tro cyntaf, roedd y cyfan yn newydd iawn ac weithiau ychydig yn frawychus, fodd bynnag roedd y gefnogaeth a gawsom gan Gyngor Sir y Fflint heb ei hail!' (Ymatebydd Prosiect 5)

'Roedd y cyfathrebu â'r cyswllt arweiniol yn wych drwyddo draw. Cawsom adborth perthnasol wrth lenwi'r cais, a hynny wedi ein cefnogi ni'n fawr.' (Ymatebydd Prosiect 5)

O ran 'beth fyddai wedi digwydd fel arall', o'r naw ymatebwr i'r arolwg ni fyddai chwech ohonynt wedi gallu cynnal y gweithgaredd heb y grant tra byddai dau wedi gallu ei gynnal ar raddfa/natur debyg trwy ffynonellau ariannu eraill.

Roedd cryn foddhad hefyd â'r cymorth a gafwyd gan dîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint fel y nodir yn ffigur 5.9 drosodd.

Ffigur 5.9: Bodlonrwydd â'r gefnogaeth a gafwyd gan dîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint




Wedi dweud hyn, roedd tri (allan o naw) o'r ymatebwyr yn teimlo y gallai'r broses fod wedi'i gwella gydag un ymatebwr yn teimlo bod angen llawer o wybodaeth ar gyfer grant mor fach fel yr un roeddent yn gwneud cais amdano a nododd un arall fod rhywfaint o'r dystiolaeth ofynnol yn rhy 'fanwl' ac yn anodd cael gafael arni (oherwydd materion fel GDPR). Fodd bynnag, mynnodd y rhan fwyaf o ymatebwyr y byddent yn gwneud cais am arian tebyg yn y dyfodol.

'Dim ond diolch anferthol i'r Cyngor Sir, i lywodraeth y DU ac unrhyw gyrff eraill a oedd yn rhan. Mae'r grant hwn wedi golygu y gallwn rŵan ailadrodd hyn eto yn 2025, gan wybod ein bod wedi cynhyrchu model cynaliadwy am o leiaf y ddwy neu dair blynedd nesaf.' (Ymatebydd Prosiect 5)

Roedd cynrychiolydd o un o'r digwyddiadau a drefnwyd wedi sôn yn eu cyfweliad am eu profiad o weithio gyda Chyngor Sir y Fflint fel rhan o'r prosiect hwn. Roeddent yn feirniadol iawn ynghylch y sefyllfa gyllido yn gyffredinol gan ddweud ei bod yn dilyn dull 'seilo' o ran bod cyllid yn cael ei ffrydio i grwpiau penodol o bobl (e.e. anabl, iechyd meddwl ac ati). Roeddent yn argymell 'dull cymuned gyfan' lle byddai 'ecosystemau' o bobl yn cael eu nodi, a byddai pob elfen o'r ecosystem yn cynnal ei gilydd.

'Mae pawb yn gallu dod â rhywbeth i'r bwrdd, gyda phawb yn cefnogi ei gilydd gan ddod â gwir ymdeimlad o gymuned yn ôl.' (Buddiolwr Prosiect 5)

### 5.5.4 Etifeddiaeth

Mae'r prosiect wedi llwyddo i wella canol trefi Sir y Fflint drwy hybu ymgysylltiad cymunedol, bywiogrwydd canol y trefi a chynyddu nifer yr ymwelwyr. Etifeddiaeth bwysig i'r prosiect fu galluogi buddiolwyr i gynnal prosiectau peilot, gan roi'r hyder a'r profiad iddynt drefnu eu digwyddiadau eu hunain yn annibynnol yn y dyfodol. Er enghraifft, roedd tîm hoci iâ lleol wedi gallu ehangu ei dwrnameintiau ar ôl cael cymorth grant gan y prosiect, a'r profiad hwnnw wedi rhoi modd iddynt ddenu cyllid ychwanegol o ffynonellau eraill.

Er mwyn sicrhau llwyddiant parhaol Prosiect 5, mae rhanddeiliaid yn cydnabod bod parhau â'r gefnogaeth i fuddiolwyr yn hanfodol. Mae hyn yn cynnwys cymorth i gael y caniatâd angenrheidiol a rheoli trefniadau logistaidd.

Mae'r prosiect hefyd wedi cynyddu nifer y gwirfoddolwyr a thrwy hynny ddarparu capasiti ychwanegol i drefnu digwyddiadau pellach. Mae'r cynnydd hwn mewn gwirfoddolwyr wedi arwain at gefnogi canol trefi a'u gweithgareddau yn ogystal â chefnogi mudiadau a sefydliadau cymunedol – gan gryfhau isadeiledd gwirfoddol a chymunedol lleoliadau:

'Mae gwirfoddoli yn elfen bwysig sy'n gwneud i bobl deimlo'n well. Mae'n fwy na nhw'n cynnal digwyddiadau eraill ar ôl treialu a chael hyder ac offer. Mae hefyd yn ymwneud â'r ffaith fod pobl sy'n gwirfoddoli yn teimlo eu bod nhw wedi cyflawni rhywbeth.' (Rheolwr Prosiect 5)

Mae Prosiect Arwyddion Mynediad Treffynnon er enghraifft wedi meithrin ymdeimlad o falchder yn y plant a gymerodd ran fel y gwelir yn y ffilm: https://www.youtube.com/watch?v=j7DxAJcH4hM. Mae hefyd yn dod â chymunedau ynghyd trwy drefnu digwyddiadau aml-genhedlaeth sy'n targedu gwahanol grwpiau oedran.

## 5.6 Prosiect 6 – Datblygu Cynlluniau Creu Lleoedd

Ffilm gwerthuso Prosiect 6: https://www.youtube.com/watch?v=Z5nEE7_POVA

### 5.6.1 Dyluniad

Darparodd y prosiect hwn yr adnoddau ychwanegol angenrheidiol i gefnogi datblygiad Cynlluniau Creu Lle ar gyfer saith canol tref ar draws Sir y Fflint. Roedd y buddsoddiad yn cynnwys cyfuniad o adnoddau staff i hyrwyddo datblygiad Cynlluniau Creu Lleoedd a chyllideb refeniw i sicrhau arbenigedd technegol a gwasanaethau ymgynghori i gwblhau'r cynlluniau.

Roedd y dull a ddefnyddiwyd gan Dîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint ar gyfer datblygu Cynlluniau Creu Lleoedd yn rhoi pwyslais mawr ar ymgynghori cyhoeddus (a hwn yn gaffaeliad ar wahân i gaffael ymgynghorydd i gyflawni'r cynllun). Mae'r dull hwn wedi'i gydnabod fel arfer gorau gan Gomisiwn Dylunio Cymru ac yn ddiweddar mynychodd aelodau Cyngor Sir y Fflint ddigwyddiad a drefnwyd ac a gynhaliwyd gan y Comisiwn i arddangos eu dull gweithio, ac i rannu dysgu ac arfer.

Ar ôl eu cwblhau, disgwylir i'r Cynlluniau Creu Lleoedd fod yn sylfaen ar gyfer sicrhau buddsoddiad i weithredu prosiectau canol trefi, gan ffurfio elfen hollbwysig o'r strategaeth ymadael a rhoi cyfeiriad i'r dyfodol y tu hwnt i gyfnod ariannu'r UKSPF.

Cynhaliwyd y gwaith mewn tair rhan (Rhan 1: Shotton, Treffynnon a Bwcle. Rhan 2: Cei Connah a Queensferry, a Rhan 3: y Fflint a'r Wyddgrug) gydag wyth cam i'w cwblhau:

Tabl 5.1: Camau creu lleoedd

| Cam | Rhaglen waith |
|---|---|
| 1 | Adolygu gwybodaeth ystadegol, ystod gyflawn o archwiliadau, asesiadau ac ymweliad(au) safle |
| 2 | Cynllunio a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus – cam 1 (ar-lein ac mewn person) |
| 3 | Dadansoddi data meintiol ac ansoddol o ganfyddiadau'r ymgynghoriad |
| 4 | Creu Cynllun Creu Lleoedd drafft |
| 5 | Ymgynghori â rhanddeiliaid ar y Cynllun drafft – yn fewnol yn y Cyngor ac yn allanol |
| 6 | Cynllunio a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus – cam 2 (ar-lein ac mewn person ) |
| 7 | Dadansoddi adborth a Chynllun Creu Lleoedd a Chrynodeb Gweithredol cyflawn |
| 8 | Cwblhau Cynllun Creu Lleoedd – yn barod i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu i'w adolygu ac i'r Cabinet i'w gymeradwyo |

Ar 4ydd Chwefror 2025 dyma'r camau yr oedd pob cynllun wedi'i gyrraedd:[6]

| Rhan 1 | Cam a gyflawnwyd |
|---|---|
| Shotton | Cam 8 |
| Treffynnon | Cam 8 |
| Bwcle | Cam 6 |
| **Rhan 2** | **Cam a gyflawnwyd** |
| Cei Connah | Cam 5 |
| Queensferry | Cam 5 |

[6] Diweddariad Cynlluniau Creu Lleoedd 4ydd Chwefror, Cyngor Sir y Fflint.

| Rhan 3 | Cam a gyflawnwyd |
|---|---|
| Y Fflint | Cam 3 |
| Yr Wyddgrug | Cam 3 |

Cyflwynwyd gwefan Creu Lleoedd Sir y Fflint hefyd fel rhan o Brosiect 6, er nad yw wedi mynd yn fyw eto. Porth yw hwn i hysbysu'r holl randdeiliaid am ddatblygiad y cynlluniau Creu Lleoedd.

### 5.6.2 Gweithredu

Dywedodd rheolwr y prosiect fod ehangder yr ymgynghori yn gryfder allweddol i'r prosiect gydag amrywiaeth eang o bartneriaid wedi bod yn rhan. Teimlwyd bod dull gweithredu cynlluniau creu lleoedd yn Sir y Fflint ychydig yn wahanol i awdurdodau lleol eraill yng Nghymru oherwydd yr elfen ymgynghori ar wahân i gomisiynu'r cynlluniau eu hunain. Yn wir, roedd eu dull mor wahanol fe'u gwahoddwyd i fynychu Gweminar genedlaethol i gyflwyno eu dull Creu Lleoedd yn Sir y Fflint. Roedd y strwythur llywodraethu o amgylch Prosiect 6 wedi'i gysylltu â'r grŵp Pobl a Lleoedd[7] a oedd yn cynnwys o leiaf 30 sefydliad arall.

Mae'r Cynlluniau Creu Lleoedd yn rhoi cyfle i wella aliniad gwasanaethau drwy ddarparu strategaeth gydlynol ar gyfer lleoedd sydd wedi'i halinio'n gorfforaethol ac sy'n rhoi'r sail ar gyfer yr achos dros gyllid yn y dyfodol gan Lywodraeth Cymru pan fo'r cyfleoedd yn bodoli.

O ran yr ymgynghoriad i ymgysylltu â'r cyhoedd a chynghorau tref, cafodd hwn ei roi ar gontract allanol i LandTech[8] drwy ei lwyfan GiveMyView fel rhan o Brosiect 8 ac felly defnyddiwyd y data o'r ymgynghoriadau hyn yn y cynlluniau creu lleoedd. Ymhellach, comisiynodd Cyngor Sir y Fflint astudiaethau eraill ar wahân, sef yr arfarniad masnachol, yr asesiadau economaidd-gymdeithasol o'r archwiliadau seilwaith gwyrdd, gan gael cymysgedd o ddulliau cyfunol o'r ymgynghori digidol (a gynhaliwyd gan lwyfan GiveMyView) ac ymgynghori wyneb yn wyneb.

Cyflawnwyd y gwaith gwaelodlin gan Gyngor Sir y Fflint ac yna yr ymgynghoriaeth wnaeth y gwaith dadansoddi a mynd trwy'r data a llunio'r cynlluniau. Deellir bod y dull cydweithredol hwn o ymdrin â'r cynlluniau creu lleoedd wedi gweithio'n dda.

O ran heriau, efallai bod y ffaith bod Cyngor Sir y Fflint wedi cynnal yr ymgynghoriadau wedi golygu bod y contractwyr wedi methu rhywfaint o *naws, ysbryd ac emosiwn* yr ymatebion a hynny wedi gwneud y broses ychydig yn anoddach i'r contractwyr.

---

[7] Grŵp traws-sefydliad sy'n cynnwys Cyngor Sir y Fflint, y bwrdd iechyd lleol, Ffederasiwn y Busnesau Bach, cynghorau tref a chymuned.

[8] Cwmni technoleg lleol sy'n arbenigo mewn ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol.

### 5.6.3 Cryfderau a gwendidau

Un o gryfderau allweddol y prosiect hwn oedd cael cynlluniau y gellid eu defnyddio yn y dyfodol sy'n seiliedig ar bobl leol a sefydliadau lleol a'u hanghenion. Mae'r cynlluniau hefyd yn llwyfan ar gyfer cyflawni pellach yn y dyfodol.

> 'Mae gennym yr ymrwymiad erbyn rŵan ac yna mae darn pellach o waith a fydd yn dod ar ôl cyfnod rhaglen ariannu'r UKSPF ac mae hwnnw'n edrych ar droi'r strategaethau hirdymor yn gynllun gweithredu un i ddwy flynedd.' (Rheolwr Prosiect 6)

Mae lefel y gefnogaeth gan y cyhoedd i 'droi'r strategaethau hirdymor yn gynllun gweithredu hyfyw un i ddwy flynedd' hefyd wedi bod yn gryfder gwirioneddol gydag ymatebwyr i'r arolwg[9] yn rhoi sgôr cyfartalog o 8.5/10 i'r cynlluniau creu lleoedd a ddatblygwyd.

Gwir gryfder y prosiect yn ôl y rhanddeiliaid a gyfwelwyd oedd darparu 'fframwaith cyfleoedd' i Gyngor Sir y Fflint yn hytrach nag unrhyw beth gorchmynnol oherwydd bod hynny wedyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd ar gyfer gweithgarwch adfywio yn y dyfodol.

Gan feddwl am y gwersi a ddysgwyd o'r prosiect, roedd y gweithgaredd yn fwy dwys o ran adnoddau nag a ragwelwyd gyda rhai dulliau ymgynghori yn fwy cost effeithiol nag eraill e.e. ymgysylltu ar-lein yn fwy cost effeithiol oherwydd y costau rhedeg is sy'n dangos llwyddiant y dull hwn. Fodd bynnag, dylid cydnabod hefyd y cynhwysiant a geir drwy gynnig amrywiaeth o ddulliau ymgynghori. Hefyd, dywedwyd mai ymgysylltu ar-lein oedd y dull a ffafrir o lawer gyda thua 8,800 o ymatebion i'r ymgynghoriadau yn hytrach na 20-30 o bobl yn ymgynghori mewn digwyddiadau cyhoeddus.

Mae llwyddiant platfform ar-lein GiveMyView ar gyfer ymgysylltu, fel y dangosir gan y gyfradd ymateb uchel iawn y cyfeiriwyd ati uchod, wedi arwain at eu comisiynu eto gan Gyngor Sir y Fflint hyd at Fehefin 2026.

### 5.6.4 Etifeddiaeth

O ran etifeddiaeth, roedd gweminar Cyngor Sir y Fflint ar eu dull unigryw o weithredu Creu Lleoedd yn cael ei ystyried yn arddangosfa o'r gwaith sydd wedi bod yn digwydd. Hefyd, bydd y modiwl hyfforddi sy'n cynnwys animeiddiad darluniadol a ddatblygwyd trwy Brosiect 8 yn rhan o'r portffolio e-ddysgu sy'n dangos sut y gellir codi ymwybyddiaeth ynghylch Creu Lle yn gyffredinol. Yn bwysicaf oll efallai yw'r etifeddiaeth a grëwyd ar gyfer saith tref Sir y Fflint gyda chynlluniau ar waith neu ar y gweill a fydd yn galluogi'r lleoliadau hyn i sicrhau cyllid gan y llywodraeth yn y dyfodol.

---

[9] Cynhaliwyd gan Gyngor Sir y Fflint.

# 5.7 Prosiect 7 – Cymorth wedi'i deilwra i fusnesau

Ffilm gwerthuso Prosiect 7: https://www.youtube.com/watch?v=ynqGdNd7kPw

## 5.7.1 Dyluniad

Cynlluniwyd y prosiect i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn y cymorth i fusnesau'r stryd fawr yng nghanol trefi. Datgelodd ymchwil a gynhaliwyd yn ystod cam cyntaf creu lleoedd yng Nghyngor Sir y Fflint fod nifer sylweddol o siopau gwag yn y rhanbarth yn ogystal ag angen heb ei ddiwallu am gymorth lleol. Roedd cymorth Busnes Cymru wedi'i anelu'n bennaf at flaenoriaethau cenedlaethol, megis dechrau busnes newydd a busnesau ar-lein, gan adael llawer o fusnesau'r stryd fawr yng nghanol trefi Sir y Fflint heb gymorth wedi'i deilwra. Gan gydnabod y bwlch hwn, comisiynodd Cyngor Sir y Fflint brosiect cymorth pwrpasol, ac, oherwydd prinder capasiti mewnol, penodwyd SavetheHighStreet (STHS) drwy broses dendro i gynnal y prosiect.

## 5.7.2 Cryfderau

Un o brif gryfderau cynllun y prosiect oedd ei strwythur tri cham. Dechreuodd y cam cyntaf fel cynllun peilot lle cafodd carfan o bymtheg o fusnesau gymorth un-i-un yn dilyn cyfnod o weithgareddau ymgysylltu. Ar ôl cwblhau'r garfan hon yn llwyddiannus, comisiynodd Cyngor Sir y Fflint ddwy garfan arall, wedi'u rhannu rhwng cam dau a thri. O safbwynt y Cyngor, roedd y dull graddol hwn yn gweithredu fel strategaeth lliniaru risg, gan roi modd iddynt fesur y galw heb ymrwymo adnoddau'n llawn o'r cychwyn cyntaf. Yn ogystal, roedd hyn yn caniatáu i'r rhaglen ddatblygu'n organig, gan ymgorffori gwersi a ddysgwyd o bob cam. Er enghraifft, roedd adborth o'r cyfnod peilot yn dangos bod angen ehangu ymdrechion allgymorth i gael carfannau llawn a chadw rhestrau wrth gefn. O ganlyniad, roedd cam dau a thri yn cynnig digwyddiadau yn y cnawd ac ar-lein ychwanegol am ddim, ynghyd â ffocws o'r newydd ar weithdai am y cyfryngau cymdeithasol a'r byd digidol, a hwn wedi bod y mwyaf poblogaidd yn y cyfnod cychwynnol.

Uchafbwynt arall oedd y model cymorth un-i-un am wyth wythnos, a hwn wedi'i ganmol gan randdeiliaid a buddiolwyr am fod wedi'i deilwra'n benodol. Roedd y prosiect hefyd yn dangos synergeddau cryf ar draws y rhaglen gyfan, yn enwedig gyda Phrosiect 1 (Grantiau Gwella Eiddo Canol Trefi) trwy drawsatgyfeirio, a oedd yn ategu'r cymorth busnes a roddwyd. Fe wnaeth y cysylltiadau traws-rhaglen hyn wella effaith gyffredinol ymdrechion Cyngor Sir y Fflint i adfywio canol trefi. Wedi dweud hynny, teimlai rhanddeiliaid mai dim ond yn rhannol y gwireddwyd y synergeddau posibl ar draws y rhaglen. Er bod rhai busnesau wedi elwa o gael cymorth busnes a grantiau gwella eiddo, nododd rhanddeiliaid nad oedd integreiddio ar draws mentrau eraill, yn enwedig Prosiect 5 (Gweithgareddau a Digwyddiadau) wedi'i wireddu i'r un graddau. Penderfynodd rheolwr y prosiect mai cyfyngiad gweithio gyda thrydydd parti preifat fel SavetheHighStreet oedd yr her hon, gan y gallai blaenoriaethau gwahanol gyfyngu ar gydweithio ar draws y rhaglen.

Er gwaethaf effeithiolrwydd cyffredinol cynllun y prosiect, nododd rhanddeiliaid heriau ar y dechrau o ran cyfathrebu a chydgysylltu â SavetheHighStreet. Roedd camaliniad cynnar ar ofynion casglu data wedi arwain at oedi wrth gael canlyniadau monitro cywir. Fodd bynnag, cafodd y problemau hyn eu datrys trwy gyflwyno prosesau adrodd mwy strwythuredig a disgwyliadau clir – un o fanteision y cynllun fesul cam, a hyn wedi galluogi'r tîm i fynd i'r afael â phroblemau a'u cywiro wrth i'r prosiect ddatblygu.

Yn y pen draw, roedd dyluniad y prosiect wedi'i lunio'n dda ac roedd yn gallu addasu. Roedd ei strwythur fesul cam yn cefnogi gwelliannau wrth ailadrodd, tra bod y ffocws ar gymorth un-i-un wedi'i deilwra wedi cael adborth cadarnhaol cryf gan randdeiliaid a busnesau. Yn wir, gwelir hyn yn y cyflawni'r targed ar gyfer nifer y mentrau a gafodd gefnogaeth (50 allan o 50) ac yna rhagori ar y targedau mewn perthynas â nifer y bobl yn mynychu sesiynau hyfforddi trwy'r prosiect (32 sy'n rhagori ar y targed o 25).

### 5.7.3 Gweithredu

Cynhaliwyd y prosiect gan SavetheHighStreet ac roedd yn cyfuno diagnosteg busnes â strategaethau i'w gweithredu yn ymwneud â'u heriau penodol. Cafodd pob perchennog busnes werthusiad o'u hamcanion a'u heriau, ac yna cawsant gynllun gweithredu penodol i fynd i'r afael â meysydd lle nad oedd ganddynt arbenigedd neu allu. Fel y nododd y staff, roedd y cynlluniau gweithredu yn arbennig o ddylanwadol, ac fe'u hategwyd gan sesiynau awr un-i-un bob wythnos.

Un o gryfderau allweddol y prosiect oedd ei strategaeth farchnata a'r ymgysylltu rhagweithiol ganddo, gan gyfuno allgymorth personol â marchnata digidol. Cynhaliodd SavetheHighStreet ddiwrnodau maes, gan ymweld yn uniongyrchol â busnesau i gyflwyno eu hunain a chodi ymwybyddiaeth am y rhaglen. Dosbarthwyd taflenni oedd â chodau QR hefyd, ynghyd â hyrwyddo ychwanegol trwy fforymau busnes a chynghorau tref i godi ymwybyddiaeth. Sicrhaodd y gwaith sylfaen cychwynnol hwn ddiddordeb eang, ac wrth i'r garfan gyntaf fynd drwy'r broses, rhoddwyd hwb pellach i gyfranogiad drwy fod pobl yn siarad am y prosiect.

At hynny, dywedodd rheolwr y prosiect fod rhwydwaith ac arbenigedd SavetheHighStreet wedi ychwanegu gwerth sylweddol a'i fod yn effeithiol wrth ategu adnoddau cyfyngedig y Cyngor, gan alluogi rhoi cymorth arbenigol i fuddiolwyr.


Soniodd y rheolwr prosiect a'r staff gweithredu am yr heriau yn ymwneud ag ymrwymiad cyfranogwyr, a ffactorau allanol yn aml yn dylanwadu ar hynny. Er bod yr wyth wythnos wedi caniatáu ar gyfer ymgysylltu ystyrlon, roedd weithiau'n anodd i fusnesau ymrwymo'n llawn. Problem achlysurol oedd busnesau yn gadael y cynllun, fodd bynnag roedd ymdrechion allgymorth cryf a rhestr wrth gefn wedi lliniaru hyn, gan sicrhau bod carfannau yn parhau ar y trywydd iawn a bod targedau'n cael eu cyrraedd yn gyson.

### 5.7.4 Canlyniadau'r Arolwg i Fuddiolwyr

Proffil y buddiolwyr

Dosbarthwyd arolwg i 45 o fuddiolwyr a gafodd gymorth gan SavetheHighStreet drwy'r rhaglen. Derbyniwyd cyfanswm o 16 o ymatebion gan fusnesau mewn tair tref yn Sir y Fflint: Yr Wyddgrug (8 ymatebydd), Treffynnon (6 ymatebydd), a Shotton (2 ymatebydd). Fel y dangosir yn Ffigur 5.10, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (63%, 10/16) wedi bod yn masnachu ers pum mlynedd neu fwy, gan nodi eu bod wedi hen ymsefydlu ar y stryd fawr.


Ffigur 5.10: Ymateb buddiolwr i "Ers sawl blwyddyn ydych chi wedi bod yn masnachu?"




Sylfaen: 16

Fel y dangosir yn Ffigur 5.11, y ffurf fwyaf cyffredin ar gyfer dod o hyd i wybodaeth am y prosiect oedd rhywun yn sôn (31%), ac yna taflen gan Gyngor Sir y Fflint (4/16, 25%). Soniodd cyfran llai o ymatebwyr am y cyfryngau cymdeithasol (13%, 2/16) ac atgyfeiriadau gan swyddog y Cyngor (2/16, 13%). Mae pwysigrwydd pobl yn sôn am y peth yn adlewyrchu ymdrechion cryf SavetheHighStreet i wneud cysylltiad ar y dechrau a rôl rhwydweithiau busnes wedyn yn codi ymwybyddiaeth o'r cymorth.


Ffigur 5.11: Ymateb buddiolwyr i "Sut clywsoch chi gyntaf am gymorth busnes SavetheHighStreet?"




Sylfaen: 16

Pan ofynnwyd iddynt am yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu cyn cael y cymorth gan SavetheHighStreet, fel y dangosir yn Ffigur 5.12, y rhai mwyaf cyffredin oedd diffyg mynediad at gymorth a chyngor busnes (64%, 9/14) a'r angen i sefydlu presenoldeb ar-lein (50%, 7/14). Roedd heriau aml eraill yn cynnwys anawsterau i gael mynediad i farchnadoedd neu gwsmeriaid newydd a hyder isel (43%, 6/14), ynghyd â phroblemau llif arian, bylchau mewn sgiliau, a llai o ymwelwyr yn mynd heibio (pob un yn 36%,5/14) a chynllunio busnes (29%, 4/14). Soniwyd yn llai aml am brinder profiad (14%, 2/14), a diffyg adnoddau (7%, 1/14).

Ffigur 5.12: Yr heriau a wynebai busnesau wrth ymgysylltu â'r cymorth am y tro cyntaf (ymatebion lluosog)





Sylfaen: 14

## Profiad o gael cymorth

Nododd naw cyfranogwr pa mor dda oedd y cymorth a gawsant a'i fod wedi bodloni eu disgwyliadau ar draws meysydd amrywiol. "Mynediad at gymorth a chyngor busnes" a gafodd y sgôr uchaf o ran bodlonrwydd: roedd pump o'r ymatebwyr yn cytuno'n llwyr (graddfa o 5), a phedwar yn cytuno gan mwyaf (graddfa o 4) bod eu disgwyliadau wedi cael eu bodloni. Roedd cytuno cryf hefyd ynghylch heriau yn ymwneud â sefydlu presenoldeb ar-lein, a chael mynediad i farchnadoedd newydd, gyda chwe ymatebwr ym mhob categori yn rhoi sgôr o 4 neu 5. Mewn cyferbyniad, dim ond dau gyfranogwr a roddodd y sgôr uchaf ar gyfer "diffyg profiad o redeg busnes", sy'n dangos, er bod gwybodaeth sylfaenol yn gyffredinol, fod cyfranogwyr angen cymorth yn bennaf gyda meysydd mwy penodol fel marchnata, cyllid, a chymorth strategol.


Ffigur 5.13: "Pan wnaethoch chi ymgysylltu â'r cymorth busnes am y tro cyntaf gyda naill ai Jo neu Lorna, y Mentoriaid Busnes a roddai'r cymorth hwn, a oedd eich busnes yn wynebu unrhyw un o'r heriau canlynol?"




Roedd pedwar o bob pump o'r ymatebwyr (81%, 13/16) yn cytuno'n gryf bod y cymorth a gawsant wedi'i deilwra i'w hanghenion unigol, a theimlai canran debyg fod y wybodaeth a roddwyd yn ddefnyddiol (81%, 13/16). Cafodd y cyfathrebu gan gynghorwyr SaveTheHighStreet, Jo a Lorna, sgôr uchel hefyd, gyda thri chwarter (75%, 12/16) yn cytuno'n gryf ac 19% yn cytuno ei fod yn ymatebol ac yn glir. Yn y cyfamser, roedd 11 o'r 16 o ymatebwyr (69%) yn cytuno'n gryf fod ymuno â'r rhaglen cymorth busnes yn syml, ac roedd tri arall (19%) yn cytuno.

Fodd bynnag, roedd yr effaith ar rwydweithio busnes yn dangos ymateb mwy cymysg. Er bod 46% (6/13) yn cytuno'n gryf eu bod wedi ehangu eu rhwydwaith busnes, roedd 15% (3/13) yn niwtral, a dewisodd 23% (3/13) sgôr o 2, gan ddangos llai o gytundeb. Er gwaethaf yr amrywiad hwn, mae'r adborth cyffredinol yn awgrymu bod y rhan fwyaf o gyfranogwyr o'r farn bod y cymorth yn rhwydd ei gael, wedi'i deilwra, ac yn fuddiol wrth fynd i'r afael â'u heriau penodol, gyda dim ond lleiafrif bychan yn mynegi ansicrwydd neu lefelau boddhad is.

Ffigur 5.14: "Wrth feddwl am eich ymwneud â Jo ac/neu Lorna o SaveTheHighStreet, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol"





Sylfaen: 16

## Canlyniadau/effeithiau'r cymorth

Wrth feddwl i ba raddau y mae'r cymorth wedi effeithio ar elfennau ar eu busnes, dywedodd ymatebwyr mai'r effaith fwyaf arwyddocaol a adroddwyd (40%, 6/15) oedd ar allu eu busnesau i ymateb i gyfleoedd newydd. Dilynwyd hyn yn agos iawn gan effeithiolrwydd marchnata, sgiliau arwain a rheoli, a rhwydweithiau/cysylltiadau, gyda thua thri o bob deg o gyfranogwyr yn adrodd am effaith sylweddol. Yn ogystal, effeithiwyd yn fawr hefyd ar y gallu i ymgysylltu â marchnadoedd newydd (27%, 4/15).

Mewn cyferbyniad, roedd llai o ymatebwyr wedi nodi effaith sylweddol ar gryfder y gweithlu (14%, 2/14), gan awgrymu, er bod y cymorth yn dylanwadu'n gadarnhaol ar feysydd strategol a marchnata, bod newidiadau yng nghyfansoddiad neu alluoedd tîm yn llai amlwg. Yn gyffredinol, mae'r data'n dangos bod y rhaglen wedi helpu llawer o fusnesau i ddod yn fwy hyblyg a hyderus wrth dargedu cyfleoedd newydd, cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, a mireinio eu dulliau arwain.

Ffigur 5.15: "I ba raddau y mae'r cymorth a gawsoch gan raglen SaveTheHighStreet wedi effeithio ar unrhyw un o'r canlynol?"





Gofynnwyd i fuddiolwyr asesu sut roedd y cymorth a gawsant gan y rhaglen wedi effeithio ar yr heriau penodol i'w busnes. Efallai nad yw'n syndod mai "diffyg mynediad at gymorth a chyngor busnes" a ddangosodd y gwelliant mwyaf yn gyffredinol: nododd tri ymatebwr nad oedd hynny bellach yn her, a dywedodd pump ei fod wedi dod yn llai o her.

Cafwyd gwelliannau cryf hefyd yn "anawsterau cael gafael ar farchnadoedd/cwsmeriaid" a "diffyg hyder", gyda phump o ymatebwyr yr un yn dweud bod y materion hyn bellach yn llai o her, ac un ymatebwr yn nodi bod "anawsterau cael gafael ar farchnadoedd" wedi'i ddatrys yn llwyr.

Gwelodd sawl maes welliant cymedrol, er enghraifft "llif arian/cyllid", "diffyg sgiliau penodol", "cynllunio busnes" a "sefydlu presenoldeb ar-lein"; roedd gan bob un o'r rhain sawl ymatebwr (tri neu bedwar) yn nodi bod y problemau hyn yn llai difrifol. Fodd bynnag, roedd rhai heriau megis "hinsawdd economaidd/llai o ymwelwyr yn mynd heibio" wedi aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth ar gyfer y rhan fwyaf o ymatebwyr, er ei bod yn deg dweud bod hyn i gryn raddau y tu hwnt i gwmpas y cymorth a gynigid.

Ffigur 5.16: Effaith y cymorth ar heriau a nodwyd





Fel y dangosir yn y tabl isod, ymhlith y 15 o ymatebwyr, nododd 3 busnes (20%) gynnydd yn nifer eu gweithwyr ers ymgysylltu â'r cymorth, tra nad oedd y mwyafrif (80%, 12/15) wedi cael unrhyw newid. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt am ddiogelu swyddi, nododd bron i hanner (43%, 6/14) fod y cymorth wedi eu helpu i gadw rolau presennol yn eu busnes. Er nad yw'r rhaglen efallai wedi ysgogi creu swyddi eang, awgryma'r canfyddiadau hyn ei bod wedi bod â rhan bwysig wrth sefydlogi cyflogaeth ar gyfer bron i hanner y busnesau a ymatebodd.

Tabl 5.2: Swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd ers ymgysylltu â'r cymorth

| | Swyddi a grëwyd ers ymgysylltu â'r cymorth | Swyddi a ddiogelwyd ers ymgysylltu â'r cymorth |
|---|---|---|
| Do | 3 | 6 |
| Naddo | 12 | 8 |

Dywedodd 14 o fusnesau faint roedd y cymorth wedi gwella sefyllfa eu busnes, gyda'r rhan fwyaf (71%, 10/14) yn dweud eu bod wedi elwa "i raddau". Teimlai grŵp llai ond sy'n dal yn bwysig (14%, 2/14) fod y cymorth wedi rhoi hwb i'w busnes "i raddau helaeth". Yn y cyfamser, dywedodd y 14% arall (2/14) nad oedd unrhyw welliant o gwbl. Mae hyn yn dangos bod y mwyafrif wedi cael rhywfaint o effaith gadarnhaol o leiaf, er mai nifer gyfyngedig yn unig a deimlai fod y manteision yn drawsnewidiol.

Ffigur 5.17: Ar y cyfan, i ba raddau y mae eich busnes nawr mewn lle gwell o ganlyniad i'r cymorth a gawsoch?




Sylfaen: 14

### 5.7.5 Etifeddiaeth

Mae etifeddiaeth graidd y prosiect wedi'i chyflawni drwy roi'r offer a'r sgiliau i fusnesau ar gyfer hunangynhaliaeth i'r hirdymor, drwy fynd i'r afael â heriau allweddol, a lleihau dibyniaeth ar gymorth allanol.

Er mwyn cynnal effaith y prosiect, sefydlwyd hyrwyddwyr lleol a rhwydweithiau masnachwyr cryfach, gan feithrin cydweithredu a chynnig cymorth i gymheiriaid ymhlith busnesau yn Sir y Fflint. Mae rhanddeiliaid wedi cydnabod y bydd cynnal ymgysylltiad drwy'r rhwydweithiau hyn yn allweddol ar gyfer sicrhau sylfaen i'r Cyngor adeiladu arni ar gyfer mentrau yn y dyfodol.

Er bod dyfodol y prosiect yn parhau i fod yn aneglur, mae SaveTheHighStreet wedi ymrwymo i roi cymorth parhaus am bris gostyngol i fusnesau sy'n cymryd rhan, gan sicrhau bod ei fuddion yn ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod a ariennir.

# 5.8 Prosiect 8 – Prosiect Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus

Ffilm gwerthuso Prosiect 8: https://www.youtube.com/watch?v=n5BsL1P3UdM

## 5.8.1 Dyluniad

Cynlluniwyd y prosiect Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus i gyd-fynd â’r naw prosiect arall yn y rhaglen ac i’w gwella, gan fod yn llwyfan gydlynus ar gyfer codi ymwybyddiaeth, meithrin ymgysylltiad cymunedol, ac arddangos canlyniadau. O’r cychwyn cyntaf, nod y prosiect oedd rhoi sylw i’r hyn y mae trefi a chymunedau’n ei gynnig a sefydlu cysylltiad cryf â chreu lleoedd, yn fewnol ac yn allanol.

Un o gryfderau nodedig dyluniad y prosiect oedd ei hyblygrwydd, gan ei fod yn caniatáu ar gyfer amrywiaeth o allbynnau a dulliau ymgysylltu, a’r rheiny’n cynnwys adnoddau hyfforddi mewnol, ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol a datganiadau i’r wasg. Yn bwysig, roedd y dyluniad wedi galluogi’r prosiect i fynd y tu hwnt i hyrwyddo trefi Sir y Fflint yn unig a chanolbwyntio ar roi sylw i’r rhaglen yn ei chyfanrwydd.

Canmolodd rhanddeiliaid y dull cyfannol yn nyluniad y prosiect, gan ei fod i bob pwrpas yn dwyn ynghyd sawl prosiect a fyddai’n debygol iawn o fod wedi cael eu hyrwyddo ar wahân fel arall. Yn hanesyddol, mae ymdrechion cyfathrebu ar draws y Cyngor yn aml wedi bod yn dameidiog, gyda straeon newyddion cadarnhaol yn cael eu cyflwyno ar wahân. Trwy bwysleisio rhyng-gysylltiad a fframio’r rhaglen fel ymdrech unedig wedi’i hategu gan greu lleoedd, llwyddodd y prosiect i greu naratif mwy cydlynol.

Ymhellach, llwyddodd y prosiect i ymwreiddio delfrydau creu lle ymhlith rhanddeiliaid mewnol ac allanol gan gefnogi gweledigaeth hirdymor y rhaglen. Roedd hyn yn cynnwys modiwlau hyfforddi wedi’u hanelu at integreiddio egwyddorion creu lle ym mhenderfyniadau bob dydd gan staff y cyngor, yn ogystal â chreu fideos wedi’u hanimeiddio i rannu’r cysyniadau hyn â’r cyhoedd yn ehangach.

Er bod dyluniad y prosiect yn cael ei ystyried yn effeithiol ar y cyfan, un maes a nodwyd ar gyfer gwelliant oedd amseriad datblygiad y modiwl hyfforddi. Roedd ansicrwydd yn y gyllideb wedi bwrw amheuaeth ar ei ddichonoldeb, gan ohirio ei gyflwyno. Er i’r tîm sicrhau cyllid ychwanegol yn y pen draw, nododd rhanddeiliaid y gallai cynnal y modiwl yn gynharach fod wedi gwella ei effaith a rhoi cymorth mwy uniongyrchol i staff a phartneriaid allanol.

### 5.8.2 Gweithredu

Un o gryfderau craidd y prosiect oedd yr integreiddio agos arno â phrosiectau eraill, gan arwain at ddull cydlynol cyffredinol o greu lleoedd. Er enghraifft, fe wnaeth cefnogaeth y cyfryngau cymdeithasol hybu ymwybyddiaeth ehangach am brosiect Baddonau Bwcle (Prosiect 2), tra bod arwyddion safle a phlaciau gwobrau (Prosiect 1) a baneri ar gyfer digwyddiadau a marchnadoedd (Prosiect 4) wedi rhoi sylw amlwg i'r gweithgareddau yn y gymuned. Yn eu tro, mae ffotograffau sydd newydd eu comisiynu wedi gwella sawl prosiect ac wedi rhoi asedau i'r cyngor ar gyfer cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus yn y dyfodol.

Ymhellach, er nad oedd wedi'i gynnwys yn y dyluniad ar y dechrau, roedd y prosiect wedi gallu defnyddio platfform GiveMyView, rhywbeth a gomisiynwyd drwy Brosiect 2.

Tynnodd rhanddeiliaid sylw at nifer o heriau allanol a effeithiodd ar gyflawni'r prosiect. Un o'r rhai mwyaf nodedig oedd cyhoeddiad annisgwyl etholiad cyffredinol Gorffennaf 2024. Yn ystod y cyfnod hwn, bu'n rhaid oedi'r holl weithgareddau marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, gan greu bylchau o ran ymgysylltu â'r cyhoedd. Mewn rhai achosion, arweiniodd hyn at oedi hyd at dri mis mewn gweithgareddau digidol a chorfforol.

Yn ogystal, arweiniodd y newid yn y llywodraeth at newid mewn canllawiau brandio, gan olygu bod angen ailgynllunio deunyddiau allweddol y prosiect. I ddechrau, nod y prosiect oedd manteisio ar arbedion maint trwy brynu deunyddiau mewn swmp, fodd bynnag roedd brandio'r llywodraeth newydd yn golygu bod angen ailgynllunio ac ailosod elfennau allweddol ar unwaith fel arwyddion prosiect, placiau a deunyddiau hyrwyddo.

O ganlyniad, roedd yr heriau a'r oedi a ddaeth i'r amlwg yn ystod cyfnod yr etholiad ymhellach wedi'u gwaethygu gan ddyfodiad cyfnod gwyliau'r haf, ac nid oedd rhanddeiliaid allweddol ac aelodau o'r gymuned ar gael ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu, gan greu rhwystr pellach.

### 5.8.3 Etifeddiaeth

Mae Prosiect 8 wedi sefydlu sylfaen gref ar gyfer ymgysylltu gwell ac ymwybyddiaeth uwch o gynnig Cyngor Sir y Fflint. Disgrifiodd rhanddeiliaid y gwaith gyda'r cyhoedd fel y "sylfaen i ddatblygiad yn y dyfodol" gan amlygu pwysigrwydd offer fel platfform GiveMyView. Mae'r platfform wedi dod yn ganolog i sawl prosiect trwy hwyluso deialog agored ac annog mewnbwn y gymuned. Yn ogystal â'i weithgareddau cyhoeddus, crëwyd etifeddiaeth sefydliadol a strategol trwy ddatblygu prosiectau, fel y modiwl hyfforddi creu lleoedd a'r fideo animeiddio, sy'n ymgorffori delfrydau creu lleoedd ymhlith staff Cyngor Sir y Fflint.

Er mwyn sicrhau cadw'r canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd, nododd rhanddeiliaid fod buddsoddiad parhaus a momentwm yn hanfodol.

## 5.9 Prosiect 9 – Gwerthuso

Ffilm gwerthuso Prosiect 9: https://www.youtube.com/watch?v=QzmIqF9Syu4

Yn rhan o'r rhaglen, roedd Cyngor Sir y Fflint wedi comisiynu cwmni cynhyrchu fideos Follow Films, yn ogystal â Wavehill, i gynnal gwerthusiad cynhwysfawr. Mae'r dull a fabwysiadwyd fel rhan o Brosiect 9 yn arbennig o arloesol gan ei fod yn cyfuno dwy elfen wahanol ond ategol. Lluniodd Wavehill adroddiad traddodiadol yn cynnig dadansoddiad manwl a mewnwelediad i'r rhaglen, tra bod Follow Films wedi datblygu ffilm yn cynnwys trawstoriad o gyfranogwyr, rhanddeiliaid a buddiolwyr y prosiect. Mae'r dull dau fformat hwn wedi bod yn effeithiol i atgyfnerthu prif ganfyddiadau'r gwerthusiad, ac mae'r ddau gwmni wedi cydweithio'n agos i sicrhau'r buddion mwyaf posibl. Yn ogystal, mae allbynnau Prosiect 9, yn enwedig y ffilm, yn ategu amcanion etifeddiaeth Prosiect 8 (Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus), trwy arddangos llwyddiant ac effaith y rhaglen ar gymuned ehangach Sir y Fflint, a thrwy hynny wella ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth o'r hyn sydd gan Gyngor Sir y Fflint i'w gynnig. Mae'r ffilmiau gwerthuso a gynhyrchwyd gan Follow Films ar sianel YouTube Cyngor Sir y Fflint ac mae dolen i'r ffilm benodol am y prosiectau dan sylw ar ddechrau pob adran o'r adroddiad hwn.

## 5.10 Prosiect 10 – Dociau Cei Connah

Ffilm gwerthuso Prosiect 10: https://www.youtube.com/watch?v=V-VbHStQocQ

### 5.10.1 Cefndir

Roedd y prosiect hwn yn ychwanegiad diweddar at y rhaglen ym mis Mai 2024 gan ei fod yn defnyddio tanwariant ar brosiectau eraill. Mae gwaith Prosiect 10 yn rhan fach o uwchgynllun llawer mwy ar gyfer ardal Doc Cei Connah.

Yn sgil diffyg buddsoddiad yn y dociau yn ystod y 10-15 mlynedd diwethaf roedd pwyslais ar ddefnyddio cyllid i wella'r ardal a rhoi naws 'treftadaeth' iddi. Roedd digwyddiadau a gynhaliwyd fel rhan o brosiect Cysylltu â Chefn Gwlad a'r Arfordir a theithiau byd natur wedi dangos potensial yr ardal. Serch hynny, teimlai'r ardal yn anniogel gan nad oedd diogelwch yno ac roedd y buddsoddiad drwy Brosiect 10 yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn. Fel y dywedodd un aelod o gymuned yr heddlu:

> 'Mae'r ardal yn adnabyddus am ei phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwerthu cyffuriau, ac mae llwybr yr arfordir yn denu'r math hwn o ymddygiad. Yn sgil gosod camerâu a goleuadau a'r gloywi cyffredinol yn yr ardal rydym yn gwybod faint mae'r amgylchedd yn effeithio ar ymddygiad pobl ac felly gyda'i gilydd bydd yr holl bethau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr ardal.'

‘Mae teledu cylch cyfyng yn chwarae rhan bwysig wrth ddylunio atal trosedd drwy ddenu mwy o bobl i’r ardal ac mae hyn yn gweithredu fel ‘ateb naturiol’ i ymddygiad gwrthgymdeithasol.’ Rhanddeiliad Ehangach Prosiect 10

Mae teledu cylch cyfyng wedi’i osod fel y dangosir yn y llun ar y dde.



Yn ogystal â’r teledu cylch cyfyng mae goleuadau newydd wedi’u gosod ar hyd Heol y Doc i gyfrannu ymhellach at ddiogelwch yr ardal er mwyn atal troseddwyr rhag defnyddio’r ardal a gwella diogelwch a gweledEdd ar ôl iddi dywyllu, ynghyd â gosod bolardiau ar hyd ardal Modern Quayside (gweler y llun isod).



Gwnaed gwaith adnewyddu hefyd ar Ganolfan Gymunedol Kathleen a May, a ariannwyd yn rhannol gan Brosiect 1 er mwyn iddi gael ei defnyddio i gynnal gwahanol ddigwyddiadau cymunedol. Deellir mai’r prif denantiaid fydd y Cadetiaid Môr a fydd yn cynnal sesiwn yno ddwywaith yr wythnos. Bydd yr adeilad hefyd yn ganolfan dreftadaeth sy’n hyrwyddo hanes cyfoethog y dociau a hwythau wedi bod mor llewyrchus ar un cyfnod. Heb y cyllid byddai’r ganolfan wedi rhoi’r gorau i weithredu oherwydd ei bod yn anhyfyw. Mae gwaith arall sydd wedi ei wneud yn cynnwys comisiynu cwmni lleol i weithio ar y gwrychoedd a’u hail-greu ar ffurf draddodiadol (gweler isod).

Yn ogystal, cynhaliwyd y gweithgareddau a ganlyn:



- Gosod ysgolion diogelwch ar ochr y doc a’u paentio’n felyn.
- Gosod arwyddion ar gyfer cerbydau masnachol.
- Gosod rhwystrau igam-ogamu i atal beiciau modur rhag goryrru ar hyd y ffordd.
- Ystod o welliannau i du mewn a thu allan adeilad Kathleen a May.
- Adnewyddu ail faes parcio gan ailbeintio’r holl gilfachau.

- Prosiect parc Glan yr Afon Gwepra a oedd yn cynnwys clirio iard gychod, gwelliannau i'r maes parcio, gosod seddi gan ddefnyddio nodweddion treftadaeth (cerrig melin), amddiffynfeydd meini, plygu gwrychoedd, gwella arwyddion a chyfleusterau diogelwch dŵr.
- Prosiect Celf Ysgol – gweithiodd y prosiect hwn gyda disgyblion cynradd yng Nghei Connah i ddathlu treftadaeth ddiwydiannol a naturiol gyfoethog ardal y doc gan gynnwys ymweliadau safle. Yna gweithiwyd gydag artist lleol i gynhyrchu gwaith celf y gellir ei ddefnyddio ar lenyddiaeth, arwyddion, a deunydd dehongli a hyrwyddo arall.



Mae'r angor, sy'n adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal, yn peri perygl baglu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei osod ar blinth maes o law.

Cysylltwyd â busnes lleol i holi am eu barn am y gwelliannau:

'Camerâu yw'r gwelliant pennaf. Roedd llawer o broblemau yma gyda lladron, pobl yn torri i mewn i iardiau, tipio anghyfreithlon ac ati. Ddim yn broblem mor fawr ag yr arferai fod, mae camerâu yn help mawr, mawr. Dim ond y camau cynnar ydi hyn felly does dim effaith wedi bod ar y busnes hyd yn hyn. Roedd llawer o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn arfer bod yma. Gobeithio nawr y bydd yn creu mwy o fusnes i mi, lle taclusach a mwy diogel i bobl ddod. Roedd y maes parcio yn llanast o'r blaen (ceir a chychod wedi'u dympio) ond mae wedi cael ei glirio erbyn rŵan.' (Buddiolwr Prosiect 10)

O edrych yn ôl, teimlwyd y gallai mwy o adnoddau staff fod wedi'u rhoi i'r prosiect a thalu eu cyflogau o'r cyllid. Fodd bynnag, roedd amserlenni'r prosiect wedi gwneud yr opsiwn hwnnw'n anymarferol. Cynhaliwyd y prosiect trwy amser y rheolwr prosiect ac ewyllys da'r gymuned leol, a chydnabyddir nad dyma'r ffordd orau o redeg prosiectau, fodd bynnag roedd y cyfle "yn rhy dda i'w golli" (Rheolwr Prosiect 10) ac mae'r cyfaddawdau sydd i'w gweld ar y prosiect wedi'u gwneud oherwydd y ffactorau hyn o ran amser a diffyg staffio.

### 5.10.2 Cryfderau

Ystyriwyd mai prif gryfder Prosiect 10 oedd ymrwymiad y bobl a oedd yn ymwneud â'i gynnal. Roedd yna wir ymdeimlad o ysbrydoli'r gymuned leol i gymryd perchnogaeth o'r ardal adfeiliedig hon gyda phawb oedd yn gysylltiedig "yn hynod ymroddedig i geisio newid y lle".

Mae'r prosiect wedi gallu dangos rhai buddion cynnar ac yn sicr wedi elwa o'r cyllid, fodd bynnag, roedd ychwanegu'r prosiect yn hwyr yn golygu bod yr amserlen yn hynod o dynn gyda ffocws ar fanteision a gwariant a allai ddigwydd yn gyflym, ac effeithiodd y diffyg dylunio pwrpasol ar gyflawni'r prosiect.

### 5.10.3 Etifeddiaeth

Gellir crynhoi prif etifeddiaeth y prosiect trwy'r sylwadau canlynol gan reolwr y prosiect:

> 'Yn gyntaf oll, bydd gennym amgylchedd mwy diogel. Rydych chi'n gwybod y bydd wedi'i oleuo'n well, a bydd ganddo deledu cylch cyfyng ac mae'r rheini'n bethau parhaol y bydd y Cygnor yn eu cynnal wedyn. Felly, dwi'n meddwl mae'n debyg mai dyna'r etifeddiaeth fwyaf o ran diogelwch i lawr yno. Fel y gwyddoch chi, dwi'n meddwl y bydd 16 o gamerâu yn y dociau a'r strydoedd ymyl. Dwi'n meddwl y bydd hynny'n gwneud gwahaniaeth mawr.' (Rheolwr Prosiect 10)

Mae agweddau eraill ar etifeddiaeth yn cynnwys y cydweithredu a'r cydweithio rhwng Cyngor Sir y Fflint ac aelodau'r gymuned leol. Mae'r prosiect hwn wedi creu momentwm a allai fod yn gatalydd i helpu'r ardal hon gael cymuned ffyniannus unwaith eto.

# 6. Casgliadau ac Argymhellion

## 6.1 Pa mor berthnasol a phriodol oedd dyluniad y rhaglen

**Roedd y rhaglen, a phrosiectau unigol, wedi'u cynllunio'n dda i fynd i'r afael â'r heriau economaidd-gymdeithasol cydnabyddedig sy'n wynebu'r ardal.** Roedd cynllun y rhaglen yn strategol iawn ac yn seiliedig ar dystiolaeth, gan fynd ati'n effeithiol i dargedu heriau a nodwyd yn Sir y Fflint. Cafodd prosiectau eu llywio gan ffynonellau data cadarn, megis arolwg CNC 2016, Arolwg Mannau Gwyrdd, Siarter Creu Lleoedd ac ymgynghoriadau cyhoeddus ehangach, gan ddarparu dealltwriaeth glir o anghenion a chyfleoedd lleol. Er ei bod yn hynod strategol, roedd y rhaglen hefyd wedi dangos hyblygrwydd o ran ei gallu i achub ar gyfleoedd a godai. Er enghraifft, roedd Prosiect 1 (Grantiau Gwella Eiddo yng Nghanol Tref) yn barhad o fenter a gafodd ei threialu mewn nifer llai o drefi cyn cyllid UKSPF, ac roedd Prosiect 10 (Cei Connah) yn iteriad llai o gynllun adfywio a fu'n aflwyddiannus wrth geisio cael cyllid yn flaenorol gan y llywodraeth ganolog.

**Rhoddodd y rhaglen sylw yn syth i anghenion uniongyrchol ar yr un pryd â gosod y sylfaen ar gyfer strategaeth, effaith ac etifeddiaeth yn y dyfodol.** Y tu hwnt i fynd i'r afael â materion economaidd-gymdeithasol uniongyrchol, cynlluniwyd y rhaglen i fod ag agwedd flaengar, ac adfywio a chreu lleoedd i'r hirdymor yn sail iddi. Trwy fuddsoddi mewn prosiectau sydd â photensial etifeddol megis gweithgareddau a arweinir gan y gymuned, gwelliannau i "seilwaith meddal" ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth, dylai'r rhaglen hwyluso effeithiau cynaliadwy sy'n ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod ariannu. Er enghraifft, mae Prosiect 2 (Datblygu Prosiectau yn y Dyfodol) wedi arwain at greu cyfres o brosiectau i'w datblygu yn y dyfodol gyda'r potensial i fanteisio ar raglenni cyllid cyfalaf yn y dyfodol pan fyddant yn codi.

**Aeth y rhaglen i'r afael yn llwyddiannus â bylchau allweddol yn y ddarpariaeth ariannu a chapasiti mewnol**. Un o gryfderau allweddol y rhaglen oedd ei gallu i lenwi bylchau wedi'u gadael gan ffrydiau ariannu eraill a chyfyngiadau mewn adnoddau mewnol. Helpodd hyn i roi sylw i'r rhwystrau i Gyngor Sir y Fflint, sefydliadau lleol, a rhanddeiliaid, gan eu galluogi i gael mynediad at gymorth na fyddai wedi bod ar gael fel arall. Mae'r cydlynu hwn ledled sawl prosiect (e.e. creu lleoedd, cymorth busnes, twristiaeth) yn dangos defnydd strategol o adnoddau prin. Roedd defnyddio partneriaid darparu allanol mewn rhai prosiectau hefyd wedi helpu i liniaru problemau capasiti ac adnoddau mewnol yng Nghyngor Sir y Fflint, gan sicrhau y gallai'r prosiect gyflawni ei amcanion yn effeithiol.

**Roedd hyblygrwydd yn yr ariannu a'r dylunio wedi galluogi cyrhaeddiad a pherthnasedd ehangach.** Oherwydd hyblygrwydd y rhaglen wrth gynnig buddsoddiadau cyfalaf a refeniw, yn ogystal â chwmpas daearyddol ledled y sir, gallai fynd i'r afael ag ystod amrywiol o anghenion ledled trefi Sir y Fflint.

**Roedd cydweithredu a chael pobl i gymryd rhan yn ganolog i ddyluniad y rhaglen.** Roedd y prosiect wedi mynd ati'n weithredol i ymgysylltu ac ysgogi mewnbwn gan ystod eang o randdeiliaid a buddiolwyr. Roedd y dull cyfranogol hwn nid yn unig yn sicrhau bod prosiectau wedi'u halinio'n dda ag anghenion lleol ond roeddent hefyd yn codi ymwybyddiaeth ehangach o'r hyn a gynigir gan Gyngor Sir y Fflint ac wedi cryfhau'r berthynas â rhanddeiliaid lleol. Fel y cydnabuwyd gan Lywodraeth Cymru, roedd y prosiect wedi creu dulliau arloesol i ymgysylltu â'r gymuned leol gan ddefnyddio llwyfannau fel "GiveMyView" ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

**Roedd cynllun strategol y rhaglen a'r rhyng-gysylltiadau ynddi wedi meithrin synergeddau rhwng prosiectau, gan wella'r effaith gyffredinol.** Roedd natur gyfannol y rhaglen yn amlwg yn y synergeddau a grëwyd ar draws prosiectau, gyda llawer o fentrau'n ategu ei gilydd i wella'r effaith gyffredinol. Er bod sawl synergedd wedi'i gyflawni (yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol), roedd y prosiectau hynny a oedd yn ymwneud ag endidau heblaw am y Cyngor megis Prosiect 7 (Cymorth wedi'i deilwra i fusnesau) wedi cael effaith gyffredinol lai nag a ragwelwyd o ran creu croesatgyfeiriadau rhwng prosiectau.

**Cryfder mawr oedd gallu'r rhaglen i addasu o ran dyluniad prosiectau, gan alluogi ymatebolrwydd i dirwedd newidiol.** Cynlluniwyd sawl prosiect yn fwriadol i fod â strwythurau hyblyg, gan roi modd gwella'n gyson yn ystod y cyfnod cyflawni. Yn fwyaf nodedig, roedd y dull gweithredu mewn tri cham ym Mhrosiect 7 (Cymorth wedi'i deilwra i fusnesau) wedi rhoi cyfleoedd i addasu'r cynnwys yn seiliedig ar anghenion busnes cyfredol yn ogystal â chyfle i ymgorffori gwersi a ddysgwyd o gamau blaenorol. Yn yr un modd, roedd y defnydd o wybodaeth fonitro ym Mhrosiect 8 hefyd wedi cynnwys addasiadau amser real wrth gynnal y prosiect, megis mynd i'r afael yn rhagweithiol â heriau cyn iddynt godi.

## 6.2 Perfformiad yn erbyn targedau

**Dangosodd y rhaglen berfformiad ariannol cryf gan wneud cynnydd effeithiol yn ei gwariant.** Llwyddodd y prosiect i bob pwrpas i reoli ei gyllideb o £1,808,763 yn llwyddiannus, gyda dros 80% o'r arian wedi'i wario erbyn diwedd mis Tachwedd 2024.

**Llwyddodd y rhaglen i gyflawni neu ragori ar yr holl dargedau allbynnau a chanlyniadau.** Mae holl dargedau allbynnau a chanlyniadau'r UKSPF naill ai wedi eu cyflawni neu wedi rhagori arnynt gydag allbynnau/canlyniadau pellach yn debygol cyn diwedd y rhaglen. Ar draws pob prosiect, dangosa'r gorgyflawni ar y lefel hon ba mor effeithiol oedd dyluniad y rhaglen a'r gweithredu arni.

## 6.3 Rheoli a llywodraethu

**Rheolwyd y rhaglen yn effeithiol, gyda rhanddeiliaid yn tynnu sylw at brosesau arwain a llywodraethu cryf drwy gydol y ddarpariaeth.** Canmolodd rhanddeiliaid yn gyson alluoedd cryf arweinwyr y rhaglen i reoli prosiectau, gan arddangos dull trefnus sy'n canolbwyntio ar fanylion a oedd yn allweddol i lwyddiant y rhaglen, o gamau cynnar gwneud cais am grant hyd at ddarpariaeth a throsolwg parhaus. Roedd ymgysylltu rheolaidd â rheolwyr prosiectau unigol, cyswllt aml â thimau UKSPF lleol a rhanbarthol a mecanweithiau adrodd â strwythur dda wedi sicrhau bod cynnydd yn cael ei fonitro'n agos, a bod problemau posibl yn cael sylw'n brydlon.

**Roedd y rhaglen yn strategol wrth ddewis prosiectau** a sail hynny oedd dyhead i fynd i'r afael â phroblemau cymuned a lle yng nghanol trefi a gwnaed hyn trwy gymorth wedi'i dargedu a sefydlu sylfaen dystiolaeth glir i helpu i lunio ceisiadau ariannu a chyfleoedd strategol yn y dyfodol. Dangoswyd hyn yn arbennig yng nghanol y trefi gyda'r defnydd o gynlluniau creu lleoedd a gyda dociau Cei Connah lle y gobeithir y bydd buddsoddiad cychwynnol yn adeiladu momentwm tuag at wireddu'r cyfleoedd sydd yn yr uwchgynllun.

**Roedd amserlen ariannu tymor byr yn her.** Fel gyda llawer o fentrau a ariannwyd gan UKSPF, cydnabuwyd yn eang gan randdeiliaid mai her oedd natur tymor byr y cyllid. Roedd dethol prosiectau yn strategol wedi sicrhau bod y mwyafrif o fentrau yn realistig a bod modd eu cyflawni o fewn y cyfnod ariannu, fel yr adlewyrchir ym mherfformiad cryf y rhaglen yn erbyn allbynnau a chanlyniadau. Er hynny, byddai rhai prosiectau, megis Prosiect 10 (Dociau Cei Connah), wedi elwa o gael amser ychwanegol ar gyfer cynllunio ac ymgynghori.

**O bryd i'w gilydd roedd y cymhlethdodau a oedd yn gysylltiedig â chasglu tystiolaeth ac adrodd wedi bod yn faich ychwanegol ar reolwyr prosiectau unigol**, gan ddangos gofynion gweinyddol heriol prosiectau UKSPF. Cymhlethwyd hyn ymhellach gan ddiffyg eglurder ynghylch gofynion tystiolaeth ar ddechrau cynnal y prosiect.

## 6.4 Effeithiau ac Etifeddiaeth

Mae'r Rhaglen Buddsoddi yng Nghanol Trefi Sir y Fflint (TCIP) wedi **arwain at fuddion mawr o ystyried yr arian cymedrol a oedd ar gael i'w weithredu**. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y defnydd effeithiol o adnoddau a'r personél a ddefnyddiwyd i gynnal a rheoli'r gwahanol brosiectau.

**Mae cryfhau ymgysylltiad rhanddeiliaid a chymunedau yn etifeddiaeth graidd ledled y rhaglen.** Llwyddodd y prosiectau i ddefnyddio ystod o ddulliau sy'n aml yn arloesol i gryfhau ymgysylltiad yn Sir y Fflint. Mae Prosiect 8 wrth gynnal mentrau cyfathrebu wedi helpu i gryfhau gweithgarwch ymgysylltu â'r gymuned tra bod y broses o gael cynlluniau creu lleoedd wedi ysgogi amrywiaeth o randdeiliaid allweddol i gymryd rhan a bod â diddordeb. Gyda'i gilydd mae hyn wedi rhoi Cyngor Sir y Fflint mewn sefyllfa dda i ymateb i gyfleoedd ar gyfer gweithgarwch adfywio yn y dyfodol wrth iddynt godi.

**Mae'r rhaglen wedi llwyddo i ymgorffori egwyddorion creu lleoedd i fod yn rhan ganolog o weithgareddau Cyngor Sir y Fflint yn y dyfodol.** Un elfen o etifeddiaeth strategol mwyaf arwyddocaol y rhaglen yw gwreiddio gwerthoedd creu lleoedd yn fewnol, a bydd hwnnw nawr yn gonglfaen i strategaeth adfywio hirdymor y Cyngor. Mae datblygu modiwl hyfforddi trwy Brosiect 8 i ymgorffori gwerthoedd creu lleoedd ar draws holl staff y Cyngor yn adlewyrchu ymrwymiad i sefydliadoli'r egwyddorion hyn, gan sicrhau eu bod yn cael eu hintegreiddio i weithrediadau a phenderfyniadau beunyddiol. Dylai'r dull hwn gryfhau gallu'r cyngor i sicrhau ymdrechion adfywio cydlynol ac effeithiol yn y dyfodol.

**Mae'r rhaglen wedi gosod sylfeini cryf ar gyfer mentrau yn y dyfodol, gan fanteisio ar y gweithgareddau a gynhaliwyd trwy UKSPF.** Mae rhanddeiliaid wedi pwysleisio bod sawl prosiect yn sbardun ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Er enghraifft, mae Prosiect 2 wedi creu astudiaethau dichonoldeb a chynlluniau busnes y gellir eu rhoi ar waith yn rhwydd pan ddaw ffrydiau ariannu newydd ar gael, gan adeiladu rhestr o gyfleoedd adfywio i bob pwrpas. Yn ogystal, dangosodd Prosiectau 4 a 5 werth digwyddiadau sy'n cael eu hailadrodd, gan weithredu fel mentrau peilot ar gyfer unigolion a sefydliadau bach. Roedd y prosiectau hyn nid yn unig wedi arddangos buddion digwyddiadau ailadroddus, ond hefyd yn ennyn hyder cyfranogwyr i gynnal gweithgareddau tebyg yn annibynnol yn y dyfodol. Mae canlyniadau llwyddiannus Prosiect 7 yn dangos y potensial ar gyfer gweithgareddau pellach i gefnogi busnesau, tra bod datblygu grwpiau masnachwyr wedi meithrin cefnogaeth rwydweithio rhwng cymheiriaid yn y tymor hir y gellir ei ddefnyddio yn y dyfodol. Gyda'i gilydd, mae'r canlyniadau hyn yn dangos gallu'r rhaglen i sicrhau manteision hirdymor, cynaliadwy y tu hwnt i'r cyfnod ariannu uniongyrchol

**Mae llawer o ganlyniadau ac effeithiau'r rhaglen yn debygol o ddigwydd y tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad hwn.** Er bod y gwerthusiad yn rhoi dadansoddiad o berfformiad y rhaglen hyd yn hyn, mae'n bwysig nodi bod y gwaith yn parhau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Mae hyn yn golygu efallai mai dim ond yn y dyfodol y daw rhai canlyniadau penodol i'r amlwg – megis effaith hirdymor rhwydweithiau masnachwyr a sefydlwyd o dan Brosiect 7, neu fanteision llawn astudiaethau dichonoldeb o Brosiect 2. O ganlyniad, er bod yr adroddiad hwn yn cofnodi cynnydd a chyflawniadau sylweddol, bydd gwir faint effaith y rhaglen yn debygol o ddigwydd dros amser.

## 6.5 Argymhellion

Nododd y gwerthusiad sawl argymhelliad allweddol:

1. Dylid sicrhau bod y cynnydd a wnaed gan y prosiectau yn cael ei rannu'n effeithiol o fewn Cyngor Sir y Fflint a chyda phartneriaid er mwyn bod y rheiny sy'n ymwneud â datblygu syniadau, cynigion a cheisiadau am gyllid yn gwybod amdano ac yn gallu adeiladu ar y cynnydd a wnaed.

2. Dylid cadw a, lle bo modd, datblygu'r bartneriaeth a'r 'dull tîm' sydd wedi esblygu wrth reoli a chynnal y rhaglen.

3. Dylid mynd ati i nodi a sicrhau adnoddau i gynnal momentwm prif weithgareddau'r prosiectau yn ystod blwyddyn bontio 2025-26 a ariennir gan UKSPF ar gyfer gweithgareddau adfywio.

4. Dylid cadw'r systemau rheoli gwybodaeth sydd wedi bod yn llwyddiannus wrth fonitro cynnydd pob prosiect.

5. Wrth gynllunio, datblygu a chynnal prosiectau yn y dyfodol, dylid adfyfyrio ar y nifer sylweddol o wersi a ddysgwyd (y manylir arnynt gyda'i gilydd yn y log gwersi a ddysgwyd ar gyfer Rhaglen Buddsoddi yng Nghanol Trefi Sir y Fflint).

## Cysylltwch â ni

0330 122 8658

wavehill@wavehill.com

wavehill.com

## Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol

@wavehilltweets

wavehill